CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU 2007 – 2013

CYFLWYNO ECHELI 3 a 4
ar gyfer
SIR CEREDIGION

PARTNERIAETH ADFYWIO ECONOMAIDD CEREDIGION

STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL AC ATODIADAU

MAWRTH 2007

Blwch Post 30 / PO Box 30
Penmorfa
Aberaeron
LLANBEDR PONT STEFFAN
SA46 0YG

llwyddiant busnes, ffyniant a gwaith llawn o safon uchel drwy economi gwerth uchel, isel ei garbon.

Darparwyd y ddogfen hon ar ran y bartneriaeth gan Brif Gorff y bartneriaeth:

Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
ABERAERON
SA46 0PA

01545 572063
ebost / email: ewro@ceredigion.gov.uk

Mynegai

	tudalen
Strategaeth Datblygu Lleol 2007-2013	4
Nodweddion yr Ardal	5
Dadansoddiad	6
Gweledigaethau	7
Nodau ac Amcanion y Strategaeth	8
Amcanion Strategol	9
Rhestr o Flaenoriaethau a Gweithgareddau sydd ag amserlen	17
Rhestr o Feysydd Gweithgaredd y Cynllun Datblygu Gwledig a flaenoriaethwyd	19
Cysylltiadau â Pholisïau, Rhaglenni a Mentrau eraill	23
Manylion cyswllt Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion	25
Manylion cyswllt Grŵp Gweithredu Lleol	29
Rhestr Atodiadau	
Atodiad 1	30
Atodiad 2	36
Atodiad 3	59
Atodiad 4	61
Atodiad 5	64

STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL 2007-2013

Mae'r strategaeth hon am fynd i'r afael ag economi gwledig helaeth y Sir a nodi anghenion a blaenoriaethau Ceredigion ar gyfer adfywio economaidd o fewn ystod o raglenni a ariennir yn ddomestig a chan Ewrop.

Mae'r anghenion a'r blaenoriaethau hyn i'w cyflawni mewn nifer o ffyrdd, rhai yn fawr a rhai yn fach. Bydd rhai yn brosiectau unigol tra bydd yn well mynd i'r afael ag eraill drwy 'gronfeydd allweddol'. Bydd eraill yn cysylltu â gweithgareddau tebyg ledled rhanbarthau Cymru i fod yn brosiectau mawr cenedlaethol o bwys a gynigir mewn nifer o leoliadau.

Cynhelir prosiectau datblygu gwledig peilot ac arloesol, sy'n gynhenid i'r Sir, drwy ddefnyddio dull sy'n adeiladu o'r gwaelod. Bydd y dull hwn yn eang ei seiliau a datblygir cymaint ag y bo modd ar ymwneud y gymuned ar lawr gwlad ag ef, gan efallai gynnwys cyflwyno yn raddol gynnyrch a gwasanaethau fydd yn ymgorffori nodweddion unigryw yr ardal neu ddulliau newydd. Y canlyniad fydd gwell defnydd o botensial cynhenid y Sir, neu ddod ag actorion, a oedd cyn hynny ar wahân, ynghyd i ryngweithio a datblygu atebion.

Bydd y dull yn un na ellir deall ei rannau ond yng nghyd-destun eu cyfraniad i'r cyfanrwydd, gan y bydd yn rhaid sefydlu'r cyfanrwydd yn gyntaf.

Bydd y bartneriaeth yn blaenoriaethu camau gweithredu ac yn cefnogi prosiectau a gweithgaredd sy'n dangos eu bod yn cyfrannu'n sylweddol at y targedau a'r canlyniadau y rhagwelir a ddaw o'r strategaeth hon. Yn ogystal, bydd camau lleol wedi'u blaenoriaethu yn canolbwyntio ar gyflawni strategaethau rhanbarthol a chenedlaethol, lle bo'n addas.

Bwriedir y Strategaeth i fod yn hyblyg ac fe'i hadolygir yn gyson. Fe'i cefnogir gan Gynllun Gweithredu a chynllun busnes i reoli ei gweithredu dros y tair blynedd nesaf. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diwygio'n flynyddol. Wrth ddod ag anghenion a blaenoriaethau adfywio economaidd ynghyd ar gyfer ystod o raglenni a ariannir yn ddomestig, y nod yw lleihau dyblygu, hyrwyddo eglurder wrth gyflenwi yn ogystal â sicrhau canlyniadau.

Gwneir hyn o fewn fframwaith polisi sylweddol a osodwyd gan y canlynol: Cymru: Economi yn Ffynnu, y Rhaglen Cydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y Cynllun Datblygu Gwledig, y Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol a'r canllawiau a ddarparwyd i fynd ymlaen ag Agenda Lisbon, amrywioldeb a gofynion trawsbynciol eraill ac yn fwyaf diweddar papur y Comisiwn 'Cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig: cau'r blwch swyddi'.

Dymuna'r bartneriaeth i Grŵp Cynllun Gofodol Canolbarth Cymru ardystio'r strategaeth hon a'i bod ar gael yn eang i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar economi Ceredigion.

NODWEDDION YR ARDAL

Sir wledig, berifferol ar arfordir Canolbarth Cymru yw Ceredigion. Mae'n rhan o ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ardal a gydnabyddir i fod ymysg yr ardaloedd sy'n llusgo y tu ôl i ranbarthau eraill yr Undeb Ewropeaidd a chanddi statws Erthygl 87 3 (a) am y cyfnod 2007 – 2013. Mae gan yr ardal fynediad at Raglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ogystal â rhaglenni eraill a ariannir o Ewrop, er enghraifft, Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru-Iwerddon 2007 – 2013.

Mae'r holl wardiau yn Sir Ceredigion yn gymwys i gael cymorth gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013 ac fe'u dosbarthir fel 'Wardiau Gwledig'.

Mae'r Sir yn 1783 cilomedr sgwâr ac mae ganddi boblogaeth o tua 78,300. Aberystwyth yw'r dref fwyaf ei maint a'r trefi pwysig eraill yw Aberaeron, Aberteifi, Llambed, Llandysul a Thregaron. Mae llawer o ddwyrain y Sir yn ucheldir heb fawr o bobl yn byw yno.

Erys perfformiad economaidd y Sir yn dal yn hynod wan. Bychan yw'r cyfleoedd am swyddi newydd ledled y Sir ac mae'r rhan fwyaf ar hyn o bryd yn Aberystwyth. Gwaethygwyd y crebachu ar yr economi wledig ymhellach yn ddiweddar yn sgil y ffaith i Dairygold a Lactalis (Caws Dyffryn Aeron) gau a gadael yr ardal.

Adlewyrchir y gwendid hwn yn yr ymchwil a gyhoeddwyd gan brosiect WELMERC (Prifysgol Cymru Abertawe, Canolfan Ymchwil a Gwerthuso Marchnad Lafur Economi Cymru, Cylchlythyr Hydref 2006). Dengys yr ymchwil mai dim ond y rhai mwyaf gwledig, Powys a Cheredigion, o blith holl siroedd Cymru, a ddangosodd ostyngiad mewn incwm yn y cyfnod 2000 – 2005. Mae'r ffigyrau ar gyfer Gwerth Ychwanegol Crynswth y Pen gan Ardal 3 Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth (NUTS) (StatsCymru) ar gyfer y cyfnod 1995 – 2003 yn tanlinellu hyn. Mae gan yr ardal sy'n cynnwys Ceredigion (sef de-orllewin Cymru) GYC y pen o £9,659 ar gyfer 2003 gyda thwf blynyddol o 2.7% yn ystod y cyfnod. Mae hyn yn cymharu â £12,459 ym Mhowys a thwf blynyddol o 4.0% drwy'r cyfnod hwnnw.

Mae cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygu gweithgareddau llwyddiannus ar raddfa lai o dan Echeli 3 a 4 Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, ac i'r cyfleoedd hynny gyd-fynd â gweithgaredd ledled Cymru a gefnogir o dan Echeli 1 a 2. Bydd gan weithgareddau o dan Echeli 3 a 4 rôl bwysig wrth ategu'r prosiectau mwy sydd i'w dwyn ymlaen o dan y Rhaglenni Cydgyfeirio.

Ar lefel ehangach, mae potensial sylweddol i ardal Aberystwyth raddol lunio ei rôl fel canolbwynt ar gyfer Canolbarth Cymru, fel y cydnabyddir yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae'r rôl hon yn ymestyn ymhellach, gan fod yn ganolbwynt i Gymru gyfan yn enwedig yn y sectorau sy'n gysylltiedig â'r economi wledig. Amlygir hyn yn y Cynllun Gofodol Cymru presennol sy'n astudio'r cyfleoedd economaidd sy'n codi o'r sgiliau lefel uchel a'r sgiliau ymchwil yng Ngogledd-orllewin Chanolbarth Cymru, gan gadarnhau'r ganolfan fel 'canolbwynt yr economi wybodaeth'.

Mae rhannau o'r Sir yn dioddef amddifadedd sylweddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru 2006) yn gosod Ceredigion fel y 6^{ed} Sir waethaf yng Nghymru sydd ag ardaloedd â phroblemau tai difrifol ac anawsterau cael at wasanaethau. Mae dwy Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf yn y Sir.

DADANSODDIAD

Casglwyd tystiolaeth ystadegol helaeth ac mae detholiadau yn atodedig fel atodiadau i'r strategaeth hon. Mewn fforwm agored, mae'r bartneriaeth wedi archwilio ac adolygu materion yn gyson. Ar y cychwyn, cafwyd fforwm agored ym Mawrth 2000 ac yn fwyaf diweddar ar 13eg Hydref 2006 (nodiadau yn atodedig yn yr Atodiadau). Mae'r fforymau hyn wedi sicrhau bod barn y bartneriaeth ynghylch cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn gyfredol a'u bod yn cael eu derbyn yn gyffredinol:

Cryfderau

- Amgylchedd o safon uchel
- Cyfalaf cymdeithasol cryf
- Potensial cael safon byw uchel
- Amrywiaeth yn y sector cynhyrchu a'r sector sy'n tyfu sy'n seiliedig ar wybodaeth, gwyddorau tir, yr amgylchedd, y môr a'r ddaear
- Cynnyrch twristiaeth cryf
- Gweithlu ffyddlon a hyblyg
- Sector addysg uwch / ymchwil helaeth

Gwendidau

- Yn berifferol i'r prif ganolfannau economaidd
- Rhwydweithiau TGCh a Thrafnidiaeth yn aml yn annigonol
- Prinder llafur a sgiliau
- Cynhyrchiant ac incwm isel
- Diffyg gallu yn y gymuned
- Y ddelwedd a dirnadaeth
- Cost uwch cynnig gwasanaeth
- Sectorau'n dirywio yn yr economi
- Trwch poblogaeth isel
- Yn aneffeithlon o ran cyflenwi dŵr

Cyfleoedd

- TGCh a hwyluso economi sy'n sylweddol seiliedig ar wybodaeth
- Sectorau busnesau sy'n ehangu yn gydnaws ag economi cefn gwlad gan gynnwys twristiaeth a rhai adnewyddadwy
- Cefnogi 'canolbwyntiau strategol' a chanolfannau o bwys
- Twf dan arweiniad galw mewn AU/AB
- Sylfaen gref ar gyfer trosglwyddo dyfeisgarwch a thechnoleg yn lleol ac i gyflenwi marchnadoedd ehangach - Comisiwn Coedwigaeth Cymru, IGER, AberTechnium, busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- Potensial i gadw a denu gweithlu medrus / entrepreneuriaid
- Diogelu a gwella safon yr amgylchedd naturiol ac adeiledig i hyrwyddo safon byw a'r economi leol
- Datblygu isadeiledd wedi'i dargedu a'i reoli
- Datblygu unigryw ar y sector cerbydau awyr di-griw (UAV)
- Datblygu gallu'r gymuned

Bygythiadau

- Diwygiadau CAP a'r UE yn ehangu
- Pobl ifainc a phobl gymwysedig yn allfudo
- Diffyg tai fforddiadwy
- Mwy o effeithiau globaleiddio
- Anghydbwysedd demograffig
- Eithrio cymdeithasol a dirywiad cyfalaf cymdeithasol
- Diffyg buddsoddi yn yr isadeiledd
- Galw cyflenwad dŵr ychwanegol
- Newid yn yr hinsawdd
- Llifogydd o'r afonydd a'r môr

Mae'r dadansoddiad yn tynnu sylw at y dystiolaeth glir bod y bwlch ffyniant yng Ngheredigion yn bennaf seiliedig, er nad yn llwyr gyfyngedig, ar "gynhyrchiant", yn hytrach na "gweithgaredd" (gweler yr Atodiadau - Dadansoddiad Economaidd Gymdeithasol). Er gwaethaf lefelau diweithdra isel a lefelau uchel o weithgaredd economaidd, mae cyfraddau cyflogau yn parhau i fod yn ystyfnig o isel yng Ngheredigion. Achoswyd y diffyg cynhyrchiant hwn (a ystyrir fel y cynnyrch ar gyfer pob gweithiwr cyflogedig), gan ddwy nodwedd allweddol yn yr economi leol. Y cyntaf yw gorddibyniaeth ar gwmnïau bychain/hunangyflogaeth nad oes iddynt ddarbodion maint ac yn ail, presenoldeb uchel sectorau sy'n cynhyrchu ychydig ac yn perfformio'n wael.

Cytuna'r bartneriaeth os ydym am unioni'r bwlch ffyniant, mae'n rhaid i'w gweledigaeth i Geredigion ganolbwyntio ar ansawdd, gwerth ychwanegol, twf busnes a chynhyrchiant uwch, er mwyn sicrhau ansawdd byw uwch i'r holl breswylwyr.

GWELEDIGAETHAU

Ceredigion yw'r unig sir sydd yn gyfan gwbl o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru o **Gynllun Gofodol Cymru**. Mae'r Cynllun hwn yn gweld Canolbarth Cymru y dyfodol yn un sydd ag:

"Amodau byw a gweithio o ansawdd uchel mewn aneddiadau llai ac mewn amgylchedd godidog, sy'n darparu modelau dynamig o ddatblygu cynaliadwy gwledig, ac sy'n symud pob sector i weithgaredd gwerth ychwanegol uwch."

Mae strategaeth gymunedol '**Ceredigion 2020'** yn nodi ei gweledigaeth fel a ganlyn:

'Bydd Ceredigion yn 2020 yn gymuned hunanhyderus, iach, gofalus a dwyieithog, wedi'i chefnogi gan economi leol gref drwy ddefnyddio sgiliau ei phobl, gan ddefnyddio'n ddoeth yr adnoddau yn ei hamgylchedd penigamp, a chan gynnig cyfleoedd i bawb i gyflawni eu potensial yn llawn.'

Roedd strategaethau adfywio economaidd blaenorol yng Ngheredigion wedi datblygu'r dull o ddefnyddio Amcan 1 a gynhwysir yma yn themâu gweithredu bras ar gyfer datblygu er mwyn mynd i'r afael â'r blwch ffyniant yng Ngheredigion ac i sicrhau safon byw uwch ar gyfer ei holl breswylwyr erbyn 2010.

Drwy'r themâu gweithredu hyn, bu iddynt adeiladu ar weledigaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o Geredigion yn 2010. Aeth i'r afael â'r prif broblemau a'r materion llosg sydd yma, gan ystyried ar yr un pryd dueddiadau byd-eang a chenedlaethol a thrwy hynny cynigiodd amlinelliad clir o sut y dylai'r Sir edrych a pherfformio ar ôl diwedd Rhaglen Amcan 1 (2000 -2006).

1. Economi â gwerth ychwanegol
2. Arloesi
3. Ychwanegu Gwerth o Safon uchel
4. Trosglwyddo Gwybodaeth
5. Adfywio'r Gymuned
6. Cyfleoedd Cyfartal, Cynaladwyedd a TGCh

Er y gwnaed cynnydd, mae'r Sir yn parhau i fod dan anfantais sylweddol o'i chymharu ag ardaloedd mwy ffyniannus ac mae'r themâu gweithredu hyn yn parhau'n sylfaenol i hyn. Mae Strategaeth Datblygu Lleol Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion yn cefnogi gweledigaeth Ceredigion 2020 yn ogystal â bod yn sylfaen iddi.

Nodau ac Amcanion y Strategaeth

Ffocws y strategaeth hon yw codi cyfoeth economaidd ac ansawdd bywyd yng Ngheredigion drwy:

- Annog ystod ehangach o gyfleoedd gwaith sy'n talu'n well;
- Camau i godi cyfraddau gweithgaredd economaidd yma;
- Annog gwasanaethau sy'n cefnogi'r economi wledig ehangach;
- Cydlynu datblygu isadeiledd a gwasanaethau newydd i gefnogi twf busnes, gan gynnwys gweithgareddau crefft a thwristiaeth;
- Gwella amgylchedd ffisegol aneddiadau a diogelu'r dreftadaeth wledig a naturiol er mwyn cefnogi twf busnes;
- Sicrhau bod gan bawb sy'n byw yng Ngheredigion y siawns a'r cyfleoedd i wneud y gorau o'u talentau a chyfrannu i wella perfformiad economaidd Ceredigion.

I'r perwyl hwn mae'r bartneriaeth wedi datblygu eu Strategaeth yn seiliedig ar bedwar amcan i dargedu'r prif anghenion yn y Sir.

Y rhain yw:

Amcan Strategol 1 – Ceredigion fel cymuned ddeniadol i fyw a buddsoddi ynddi.
Amcan strategol 2 – Gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf.
Amcan strategol 3 – Creu mwy o swyddi a swyddi gwell.
Amcan strategol 4 – Canolbwyntio adfywiad.

Amcan Strategol 1
Ceredigion fel cymuned ddeniadol i fyw a buddsoddi ynddi

Thema 1 - Cefnogaeth a chymorth i fusnesau dyfu a chyfleoedd gwaith sy'n talu'n well

- Cynyddu twf cynaliadwy busnesau
- Gwella gallu busnesau i gystadlu
- Cynorthwyo busnesau i addasu wrth i amgylchiadau newid
- Cymorth a chefnogaeth i fusnesau ar gyfer arloesi

Megis:
- Mentora / secondiadau
- Gwella a pharhau cefnogaeth fel Llygad Busnes
- Hwyluswyr arloesi i wneud cysylltiadau masnachu ymysg busnesau lleol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr
- Gweithlu preifat ar gyfer gofalwyr, cefnogaeth sector preifat i ofalwyr i gael mynediad at hyfforddiant / seibiant / cludiant

Thema 2 - Entrepreneuriaeth

- Cynyddu nifer y busnesau newydd
- Gwella ansawdd busnesau a sefydlir a'r entrepreneuriaeth ynddynt
- Meithrin diwylliant o entrepreneuriaeth drwy fentora, cael gwared â'r stigma / ofn methu

Megis:
- Adnabod entrepreneuriaid yn yr ysgol - eu cadw a'u denu - a'u hannog i ddychwelyd i Geredigion ar ôl cymhwyso - cymorth / cymhelliannau ariannol unedau hybu

Thema 3 - Safleoedd ac Adeiladau

- Sicrhau fod safleoedd ac adeiladau ar gael i ateb anghenion a gofynion presennol, hysbys, cudd a phosibl busnesau ac entrepreneuriaid

Megis:
- Busnesau llai yn y gymuned leol sy'n cynnig gwasanaethau – rhannu cyfleusterau
- Awdit ar safleoedd tir llwyd – lleoliadau lleol
- Torri lawr ar yr amser teithio ar gyfer cymudo
- Ailddefnyddio hen adeiladau ysgol / capeli ar gyfer menter
- Asesu strategol ar safleoedd ac adeiladau
- Cyfleusterau storio sylfaenol ac unedau llai, fforddiadwy ar gyfer busnesau lleol yn lleol (Aberaeron ac ati)

Thema 4 – Trafnidiaeth

- Gwella'r rhwydweithiau ffyrdd, rheilffyrdd ac awyr i sicrhau trafnidiaeth effeithiol i Geredigion ac yng Ngheredigion
- Annog a gwella mentrau trafnidiaeth cynhaliol sy'n ateb anghenion bobl leol ac ymwelwyr ill dau
- Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus

Megis:
- Annog arloesi drwy gynnal cynlluniau peilot
- Integreiddio amserlenni / darpariaeth (rhwydwaith cyflenwi lleol)
- Sybsideiddio trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc
- Awdit trafnidiaeth - cynlluniau trafnidiaeth ar gyfer cymunedau unigol; astudiaeth economaidd o ddulliau eraill (costau / buddiannau)
- Cysylltiadau strategol i'r de (Sir Benfro, Sir Gâr) a'r dwyrain (Powys a thu hwnt)
- Gwella'r rheilffordd – cludo nwyddau ar drên
- Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd i unrhyw / pob menter trafnidiaeth

Thema 5 - Cymunedau cryfach

- Datblygu cyfleusterau sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol.
- Datblygu mentrau sy'n cefnogi cymunedau i reoli'u hasedau eu hunain
- Annog cymunedau i rannu gwybodaeth, rhwydweithio a datblygu cadwyni cyflenwi lleol.

Megis:
- Mynediad at wasanaethau i bob aelod o'r gymuned - rhoi'r sgiliau a'r hyder i bawb i ddefnyddio mynediad electronaidd lle bo modd.
- Cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau / mentrau tai fforddiadwy

Thema 6 - Brandio a Marchnata

- Cefnogi datblygu cynnyrch a gwasanaethau y gellir eu gwerthu drwy ddatblygu a gweithredu strategaethau marchnata sy'n rhoi sylw amlwg i amgylchedd unigryw a delwedd ddiwylliannol werthfawr Ceredigion.

Megis:
- "Gwerthu Ceredigion" - "Profiad Ceredigion"
- Balchder lle a chynnyrch
- Busnes a bioamrywiaeth – Brand
- Hanes teulu / Llyfrgell Genedlaethol
- Twristiaeth werdd
- Integreiddio - annog mentrau sy'n bodoli'n barod i wneud yn fawr o amrywiaeth diwylliannol lleol
- Datblygu digwyddiadau diwylliannol

Thema 7 - Ychwanegu Gwerth

- Ychwanegu gwerth at gryfderau, adnoddau a chynnyrch mewnol sy'n bodoli eisoes mewn sectorau penodol, gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth, diwydiannau gwybodaeth, twristiaeth, cynhyrchu bwyd, sectorau sy'n seiliedig ar ddiwylliant a'r cyfryngau.

Megis:
- Cefnogaeth i'r sector bwyd amaethyddol
- "Mentora" Pysgotwyr – cyfleuster cymorth wrth ddechrau / gafael dwylo e.e. ychwanegu gwerth, gwerthu'n lleol
- Cynnyrch coed – coed yn ogystal â biomas
- Cyfnewid tiriogaethol ar syniadau gyda siroedd eraill

Thema 8 - Yr Amgylchedd

- Gwarchod a gwella amgylchfyd naturiol, diwylliannol a morol fel ased
- Gwella'r amgylchedd adeiledig mewn trefi a phentrefi a gwarchod treftadaeth cefn gwlad
- Codi ansawdd yr amgylchedd
- Archwilio a datblygu cyfleoedd economaidd newydd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd
- Sicrhau bod adnoddau a'r amgylchedd yn cael eu rheoli mewn modd integredig a chynaliadwy

Megis:

- Cydlynu marchnata anghenion amgylcheddol yn iawn.
- Angen i ffermwyr / perchnogion tir gydnabod eu hamgylchedd fel maes hamdden/buddion iechyd
- Datblygu isadeiledd llwybrau, megis rhai cerdded – llwybr yr arfordir
- Busnesau biomas deilliedig
- Mynediad i goedwigoedd a'u hecsploetio
- Amgylchedd y môr / pysgodfeydd cynaliadwy
- Lleihau'r effaith amgylcheddol drwy arferion caffael synhwyrol cydlynol (sector cyhoeddus a phreifat)
- Purdeb / ansawdd / cyflenwad dŵr

Amcan Strategol 2

Gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf

Thema 1 - Arloesi

- Annog diwylliant o ddyfeisgarwch yn y Sir
- Cefnogi busnesau bychain a chanolig eu maint i dderbyn dyfeisgarwch.
- Annog datblygu rhwydwaith i gefnogi arloesi i'r safonau uchaf mewn canolfannau arloesi gan gryfhau'r hyn sydd gennym eisoes o ran Addysg Uwch / IGER, Technium Aber, Parc Aberporth a Chanolfan Bwyd Cymru.
- Annog busnesau i berfformio'n well, i oroesi a thyfu drwy ddyfeisgarwch

Megis:

- Yr angen ar gyfer cydweithio i ddatblygu hyd yr eithaf y cyfleoedd i sefydliadau mawr (CSC, PCLl/PCA ac IGER) a'r gymuned leol
- Mwy o gydweithio ar ymchwil a datblygu

Thema 2 - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- Ehangu'r mynediad i fand eang sylfaenol i'r holl aneddiadau yn y sir
- Datblygu technolegau a rhwydwaith ystod band uwch er mwyn i ddiwydiannau technoleg newydd allu datblygu.

Megis:

- Trafodaethau isadeiledd technoleg cyfathrebu â PCA / GIG(NHS) / BILl (LHB)
- Mynd i'r afael ag ardaloedd sy'n cael trafferth â band eang (fel Cilcennin)
- Sgiliau lefel uchel / lefel graddedigion i gefnogi busnesau TGCh
- Canolfannau rhagoriaeth TGCh

Thema 3 - TGC a Thechnoleg/Cyfryngau cydgyfeiriol

- Denu, sefydlu a datblygu busnesau sy'n seiliedig ar TGCh
- Meithrin defnydd ehangach o'r sgiliau a'r technolegau hyn mewn busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes
- Sicrhau deheurwydd a gallu yn y gweithlu
- Cynyddu'r nifer o fusnesau lleol a busnesau sy'n defnyddio e-fasnach ac annog integreiddio a defnyddio rhaglenni uwch
- Annog defnyddio sgiliau TGCh a thechnolegau mewn cymunedau i ledaenu a chyfnewid arfer da ac arloesi

Megis:
- Denu a chadw sgiliau
- Sgiliau TG sylfaenol hefyd, osgoi'r rhaniad sgiliau digidol

Thema 4 – Ynni

- Gwella effeithiolrwydd ynni a'i arbed yng Ngheredigion
- Annog defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a'u datblygu yng Ngheredigion
- Sicrhau bod cyflenwad ynni ar gael i gymunedau a busnesau
- Annog creu busnesau a chyfleoedd gwaith yn y sector ynni

Megis:
- Canolfan rhagoriaeth – ynni / gwastraff (AU)
- Rhwydweithiau Busnes - gwastraff un busnes yw deunydd crai un arall

Thema 5 – Lleihau Gwastraff ac Ailgylchu

- Cynyddu'r defnydd effeithiol o adnoddau ac ailgylchu yng Ngheredigion
- Datblygu marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion sydd wedi'u hailddefnyddio a'u hailgylchu
- Annog creu busnesau a chyfleoedd gwaith yn y sector arbed deunyddiau

Amcan Strategol 3

Creu mwy o swyddi a swyddi gwell

Thema 1 - Cefnogi'r Gweithlu

- Cynyddu hyblygrwydd gweithwyr a mentrau er mwyn ateb gofynion a her newidiadau a chystadleuaeth
- Denu'r ifanc i weithio'n lleol
- Datblygu addysg a hyfforddiant, sgiliau i ddiwallu anghenion busnesau lleol ac arloeswyr gan gynnwys bylchau tu hwnt i'r brif ffrwd

Megis:
- Cyngor a chefnogaeth i fusnesau ynghylch cyflogi pobl ag anableddau, gan gynnwys gwybodaeth ar fudd-daliadau, gwaredu mythau, effaith y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail anabledd ar fusnesau.
- Mwy o ddarpariaeth gofal plant
- Mwy o ddefnydd o rannu swydd / oriau hyblyg er budd rhieni sengl
- Angen mynd i'r afael ag amrywioldeb y gweithlu (twf yn y gweithlu sy'n

dod o'r gwledydd sy'n aelodau newydd)
- Materion tai sy'n gysylltiedig â hyn

Thema 2 - Adeiladu Gallu

- Cynyddu gallu cymunedau yng Ngheredigion i lywio eu dyfodol a dod yn actorion economaidd gan gynnwys datblygiadau cydweithredu
- Annog cydweithio a chynnig cyngor a chefnogaeth i rai sydd yn arbennig o ddifreintiedig.

Megis:
- Cydlynu rhwng yr holl asiantaethau budd-daliadau a chyngor: Canolfan Byd Gwaith, Gwasanaethau Anabledd a Gofalwyr, Pensiynau, lwfans Budd-dal Tai, CAVO o ran ymgyrchoedd sicrhau budd-daliadau
- Mentrau Cymdeithasol – adolygu profiad, gwerthuso cynaladwyedd

Thema 3 - Ehangu Cyfranogaeth yn y Gymuned a Gwaith

- Lleihau eithrio cymdeithasol a datblygu mentrau sydd wedi'u hanelu at grwpiau difreintiedig ac sy'n eu cefnogi.
- Annog cydweithio a chynnig cyngor a chefnogaeth i rai sydd yn arbennig o ddifreintiedig.

Megis:
- Gwell cyswllt â'r gwasanaeth prawf ar gyfer ailsefydlu cyn-droseddwyr
- Edrych ar leoliadau gwaith gwirfoddol fel dechreubwynt
- Cynllun llogi car i weithwyr newydd ym mis cyntaf eu cyflogaeth (ac yna eu rhoi yn ôl).
- Gwirfoddoli fel llwybr i ddychwelyd i waith neu i gael mynediad at gyfleoedd gwaith
- Cyngor rheoli arian / trin dyledion sydd ar gael fel cyngor ynddo'i hun neu fel rhan o hyfforddiant arall.

Amcan Strategol 4
Canolbwyntio adfywiad

Bydd y strategaeth hon i adfywio economi yn cefnogi lles y sir benbaladr. Isod nodir dimensiwn gofodol i sicrhau y cyflawnir hyn ac i gydnabod swyddogaeth benodol canolfannau a chyfleusterau unigol wrth gyflawni hyn. Mewn nifer o achosion cefnogir yr elfennau hyn gan gynlluniau adfywio ac / neu gynlluniau gweithredu.

Thema 1 – Adnabod Ardaloedd Anghenus

- Aberteifi ac ardal Cynllun Adfywio De Ceredigion
- Ardal Cymunedau'n Gyntaf Pentrefi Ucheldir Tregaron
- Ardal Cymunedau'n Gyntaf Penparcau a Gorllewin Aberystwyth

Megis:
- Gweithgareddau Bwrdd Gweithredu Aberteifi

Thema 2 – Clystyrau a Themâu

- Safleoedd strategol yng Nghapel Bangor a Pharc Aberporth

- Elfennau 'Canolfannau Arloesi' yng Ngogerddan (IGER), Technium Aber, Canolfan cerbydau awyr di-griw (UAV) Ewropeaidd ym Mharc Aberporth a Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb.
- Yr economi wybodaeth, gan gryfhau LLGC, CyMal, PCA a PCLl; yn ogystal â'r cyfleoedd sector breifat yn y sector hon gan gynnwys y rheiny a nodwyd yn yr astudiaeth gwyddorau daear, amgylchedd, diwydiannau'r tir a'r sector morol a wnaed i Grwpiau Cynllun Gofodol Gogledd Cymru a'r Canolbarth
- Cyfleoedd yn ymwneud ag ymwelwyr a hamdden; Ardal Bae Ceredigion a threftadaeth mwyngloddio'r Sir

Megis:
- Materion arfordirol: dŵr a'r amgylchedd
- Y Borth / isadeiledd ar gyfer amddiffyn rhag y môr / arfordir a gweithgareddau â busnesau cysylltiedig sy'n deillio o hyn
- Allgynhyrchu'r Sector AU
- Cefnogaeth i Wyddorau sylfaenol
- gweithgaredd Canolfan Bwyd Cymru a chysylltu ag agenda Rhanbarthau ar gyfer Newid Economaidd
- Parhau i weithredu ar safleoedd ac adeiladau i wneud iawn am fethiant y farchnad
- Prosiectau arloesi blaenllaw e.e. Canolfan UAV a See3d

Thema 3 – Cefnogi Canolfannau'r Sir

- Canolfannau lleol ar gyfer gwasanaethau a busnesau sylfaenol: Aberaeron, Llambed, Llandysul, a Tregaron.
- Canolfannau, gwasanaethau, ac ystod eang o fusnesau rhanbarthol; canolbwyntiau cludiant a chysylltiadau i safleoedd strategol a swyddogaethau clwstwr a thematig: Aberystwyth ac Aberteifi.
- Aberystwyth – prif ganolfan yng Nghymru
- Gweithredu ar Aberteifi
- Cronfa Datblygu Ffisegol (PRF) Tregaron

Thema 4 – Cefnogi'r Gymuned Wledig

- Cefnogi'r gymuned wledig a'i gwasanaethau sylfaenol sy'n dal yn cynrychioli elfen sylweddol o'n heconomi ac sydd yn dal angen cefnogaeth.
- Gwella, darparu cymorth ychwanegol ac annog arloesi wrth gynnig gwasanaethau sylfaenol ac wrth ddiwallu anghenion y gymuned wledig.
- Gwella safon byw yn y gymuned wledig ac annog arallgyfeirio gweithgaredd economaidd.

Megis:
- Rhoi sylw i rwystrau i fynediad – AB / AU / Iechyd ac ati
- Annog unigolion i gyrraedd potensial i gyfrannu i'r economi a'r gymuned

BLAENORIAETHAU AR GYFER GWEITHREDU

Bydd Cynllun Gweithredu yn amlygu sut y bwriada'r bartneriaeth fynd ymlaen â'r strategaeth hon drwy osod ei flaenoriaethau penodol ar gyfer pob rhaglen ariannu.

Blaenoriaethau ar gyfer Echeli 3 a 4 o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013

Ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG/RDP), Echeli 3 a 4, mae'r bartneriaeth wedi ystyried ei Strategaeth Datblygu Lleol yn ddwys ac wedi canolbwyntio'n bennaf ar y rhannau hynny y gellir eu cyflenwi orau drwy'r CDG yn hytrach na ffynonellau arian adfywio eraill domestig ac o Ewrop.

Paratowyd Cynllun Gweithredu Echeli 3 a 4 CDG 2007-2013 i ddangos blaenoriaethau a gweithgareddau sydd ag amserlen ac sydd ar lefel uwch na phrosiectau unigol. Cefnogir hyn gan restr sy'n disgrifio'r meysydd gweithgaredd hyn gan gynnwys y rheiny a flaenoriaethwyd ar gyfer eu gweithredu gan Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion.

Bydd y bartneriaeth yn defnyddio'r Cynllun Gweithredu hwn fel rhan o'i asesiad ar brosiectau ac wrth ystyried a ddylai'r bartneriaeth gefnogi prosiect ai peidio. Bydd y bartneriaeth am gefnogi'r holl brosiectau hynny sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn a'r rhai sydd fwyaf abl o gyflenwi'r allbwn y mae am ei gael.

Datblygir cynllun asesu gwrthrychol ar brosiectau unwaith y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl pellach ar brosiectau a chynlluniau busnes. Byddai'r bartneriaeth am asesu'r prosiectau yn seiliedig ar y canlynol, yn ogystal â'r canllawiau manwl a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru:

- Perthnasedd i gyflawni neu gyflenwi un neu fwy o Amcanion y strategaeth hon a'r Blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer Echeli 3 a 4 y CDG.
- Cyfranogiad a'r effaith ar grwpiau targed penodol a restrir isod.
- Allbwn neu gynnyrch mesuradwy ac ychwanegol.
- Dangos rhan effeithiol a chynhwysol partneriaeth.
- Cyfatebiaeth â strategaethau lleol eraill.
- Yn cyfateb ac yn osgoi dyblygu posibl â phrosiectau eraill neu ariannu dwbl
- Pa mor ymarferol a chynaliadwy ydynt yn y tymor hir.
- Effeithiau ar yr amgylchedd / y graddau y rhoddir sylw i'r agenda datblygu cynaliadwy.
- Y graddau y mae'r prosiect yn mynd i'r afael â materion amrywioldeb.
- Rhan bob sector preifat, cyhoeddus a 'thrydydd sector' yn y prosiectau.

Bydd y grwpiau targed yn cynnwys menywod a phobl ifanc (gan gynnwys ffermwyr ieuanc), micro-fentrau (gan gynnwys teuluoedd sy'n ffermio), cymunedau sy'n siarad Cymraeg, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl a dangyflogir. Gallai prosiectau fod o fudd hefyd i'r plant a'r henoed.

Dylai cyflenwi'r prosiectau drwyddi draw ystyried maint y Sir a cheisio cael cydbwysedd daearyddol addas ledled y Sir.

llwyddiant busnes, ffyniant a gwaith llawn o safon uchel drwy economi gwerth uchel, isel ei garbon.

Rhestr o Flaenoriaethau a Gweithgareddau sydd ag amserlen

STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL																				Gweithgareddau Blaenoriaethol CDG Ceredigion	Gweithredu					
Amcanion Strategol																										
Cymuned ddeniadol i fuddsoddi a gweithio ynddi								Gwybodaeth ac Arloesi ar gyfer Twf					Mwy o swyddi a swyddi gwell			Canolbwyntio Adfywiad					Blwyddyn					
Themâu								Thema					Thema			Thema										
1	2	3	4	5	6	7	8	1	2	3	4	5	1	2	3	1	2	3	4		2008	2009	2010	2011	2012	2013
																				Creu a Datblygu Micro-fentrau						
		■												■	■					Buddsoddi mewn mentrau cymdeithasol sy'n galluogi twf drwy gynyddu trosiant a chyflogaeth.	■	■	■			
	■					■														Cymorth i ficro-fentrau sy'n gweithio yn y diwydiannau Gwybodaeth (cynnyrch nad yw bod yn weledig ynysig yn effeithio arno).	■	■	■	■	■	■
	■																			Sefydlu micro-fentrau i greu incwm gwledig ychwanegol, nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig ag amaethyddiaeth / twristiaeth.		■	■	■	■	■
	■										■	■								Cymorth i ficro-fentrau ynni adnewyddadwy a sectorau ailgylchu arloesol.		■	■	■	■	■
	■					■														Buddsoddi mewn micro-fentrau sy'n cefnogi cynnyrch bwyd lleol.	■	■	■	■	■	■
																				Cronfa allweddol ar gyfer datblygu a sefydlu micro-fentrau.	■	■				
																				Annog Gweithgaredd Twristiaeth						
	■				■											■				Buddsoddiad wedi'i dargedu'n ddaearyddol mewn llety, cyfleusterau neu isadeiledd llai	■	■	■	■	■	■
					■															Buddsoddiad mewn twristiaeth amgylcheddol ar raddfa lai sy'n datblygu amgylchedd gwledig Ceredigion i'r eithaf.		■	■	■	■	■
					■															Cymorth i ddigwyddiadau lleol sy'n ychwanegu at y profiad twristaidd yng Ngheredigion ac yn cynorthwyo i frandio'r Sir fel cyrchfan unigryw a gwahanol.	■	■	■	■		
					■															Cymorth i farchnata mentrau penodol sy'n canolbwyntio ar "dlysau" Ceredigion.	■	■	■	■		
					■															Cefnogaeth ar gyfer cynnyrch gwledig gwerth ychwanegol.				■	■	■
																				Cronfa allweddol ar gyfer annog gweithgaredd twristiaeth ar raddfa fach.	■	■				
																				Gwasanaethau Sylfaenol ar gyfer Poblogaeth ac Economi gwledig						
				■			■											■		Buddsoddi ar raddfa fach mewn cyfleusterau cymunedol pentrefi, sy'n gwella'r amgylchedd naturiol neu adeiledig ac sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd.	■	■	■			
				■														■		Buddsoddi ar raddfa fach mewn gwasanaethau sylfaenol sy'n cyfrannu at les a bodlonrwydd poblogaeth wledig Ceredigion.		■	■	■	■	
			■															■		Buddsoddi ar raddfa fach mewn mentrau trafnidiaeth arloesol neu wedi'u harwain gan y gymuned sy'n cynorthwyo i fynd i'r afael â pherifferoldeb gwledig.		■	■	■	■	■
																				Cronfa allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau sylfaenol ar raddfa fach i'r economi wledig a'i phoblogaeth.	■	■				

STRATEGAETH DATBLYGU LLEOL																				Gweithgareddau Blaenoriaethol CDG Ceredigion	Gweithredu					
Amcanion Strategol																										
Cymuned ddeniadol i fuddsoddi a gweithio ynddi								Gwybodaeth ac Arloesi ar gyfer Twf					Mwy o swyddi a swyddi gwell			Canolbwyntio Adfywiad										
Themâu								Thema					Thema			Thema										
1	2	3	4	5	6	7	8	1	2	3	4	5	1	2	3	1	2	3	4		Blwyddyn					
																					2008	2009	2010	2011	2012	2013
																				Adnewyddu, Datblygu a Gwarchod Pentrefi / Uwchraddio'r Dreftadaeth Wledig						
							■													Buddsoddi ar raddfa fach yn nhreftadaeth adeiledig Ceredigion.	■	■	■	■	■	■
							■									■				Buddsoddi ar raddfa fach yn nodweddion treftadaeth aneddiadau ardal Cymunedau'n Gyntaf Tregaron a'r Ucheldir.				■	■	■
							■													Buddsoddi ar raddfa fach yn nhreftadaeth naturiol (amgylcheddol) Ceredigion.	■	■	■	■		
							■													Mentrau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar ôl traed amgylcheddol Ceredigion.	■	■	■	■	■	■
	■																			Mentrau wedi'u targedu sy'n hybu'r defnydd o dir nad yw'n amaethyddol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio neu dan fygythiad o beidio â chael ei ddefnyddio.			■	■	■	■
																				Cronfa allweddol ar gyfer adnewyddu a datblygiad / cadwraeth pentrefi ar raddfa fach.	■	■				
																				Hyfforddiant a Gwybodaeth i actorion Economaidd yng ngweithgaredd Echel 3						
	■																			Hyfforddiant sgiliau wedi'i dargedu at unigolion er mwyn galluogi incwm ychwanegol.	■	■	■	■		
													■		■					Hyfforddiant sgiliau wedi'i dargedu i greu cyfleoedd gwaith a lleihau eithrio economaidd.	■	■	■	■	■	■
													■	■						Hyfforddiant arbenigol i Ficro-fentrau Ceredigion er mwyn cynyddu eu heffeithiolrwydd a'u gallu i wneud elw.	■	■	■	■	■	■
													■							Hyfforddiant sgiliau traddodiadol i ateb anghenion treftadaeth Ceredigion.	■	■	■	■	■	■
															■					Mentrau sydd am wella ffyrdd iach o fyw yng Ngheredigion.	■	■	■	■	■	■
																				Ysgogi / Meithrin Sgiliau						
					■									■						Adnabod dulliau amgen a ffynonellau amgen incwm ar gyfer teuluoedd sy'n ffermio a'r cymunedau gwledig.	■	■	■	■		
														■						Gweithio â gweithgareddau a grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynyddu entrepreneuriaeth	■	■	■	■	■	
														■				■		Datblygu gweithgareddau rhwng cenedlaethau - sicrhau trosglwyddo sgiliau a datblygu'r sgiliau hynny sydd eu hangen i addasu ac ateb anghenion y farchnad bresennol	■	■	■	■	■	■
																		■		Ysgogi, wedi'i dargedu'n ddaearyddol at boblogaeth wledig i fynd i'r afael ac adnabod camau gweithredu y gellir eu gwneud ar y cyd i godi incymau	■	■	■	■	■	■
														■				■		Rhwydweithio ac ymwneud â grwpiau lleol ac unigolion a rhyngddynt, mentora – rhannu gwybodaeth ar brynu, marchnata a dosbarthu	■	■	■			

RHESTR O FEYSYDD GWEITHGAREDD Y CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG A FLAENORIAETHWYD

Creu a Datblygu Micro-fentrau

- **Buddsoddi mewn Mentrau cymdeithasol sy'n galluogi twf drwy gynyddu trosiant a chyflogaeth:** I gynnwys buddsoddi mewn mentrau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yng Ngheredigion gan eu galluogi i wella eu sefyllfa gwerthu a chynyddu cyflogaeth. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Pafiliwn Cyf, Telynau Teifi, Grwpiau Menter, Ymlaen Ceredigion, Waunifor, Ymddiriedolaeth Eluned, Ardal 43, Menter a Busnes ac Antur Teifi.
- **Cymorth i ficro-fentrau sy'n gweithio mewn diwydiannau Gwybodaeth (cynnyrch nad yw bod yn wledig ynysig yn effeithio arno):** I gynnwys buddsoddi ar raddfa fach mewn mentrau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yng Ngheredigion, rhai sy'n masnachu gwybodaeth neu gynnyrch sy'n greadigol seiliedig ac nad ydynt o dan anfantais o fod yn wledig ynysig, gyda'r canlyniad o gynnydd mewn trosiant a chyflogaeth. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Theatr Mwldan, Antur Teifi, Grwpiau Menter a Chanolfan Gelfyddydau Aberystwyth.
- **Sefydlu micro-fentrau i greu incwm gwledig ychwanegol, nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig ag amaethyddiaeth / twristiaeth:** I gynnwys buddsoddi mewn gweithgaredd micro-fentrau sy'n seiliedig ar roi modd i gael incwm ychwanegol i gartrefi sy'n ffermio. Partneriaid posibl i'w nodi / meithrin drwy weithgaredd hwyluso Echel 4.
- **Cymorth i ficro-fentrau ynni adnewyddadwy a sectorau ailgylchu arloesol:** I gynnwys buddsoddi mewn micro-fentrau y mae eu prif fusnes yn ymwneud â ffyrdd arloesol o fasnachu ynni adnewyddadwy neu ailgylchu / ailddefnyddio. Y canlyniad fydd mwy o weithgaredd yn y sector hwn a chynnydd mewn trosiant a chyflogaeth yn y mentrau hyn. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Craft, Ymlaen Ceredigion a Grwpiau Menter.
- **Buddsoddi mewn micro-fentrau sy'n cefnogi cynnyrch bwyd lleol:** I gynnwys buddsoddi mewn gweithgaredd sy'n hybu ychwanegu gwerth i fwyd a gynhyrchir yn lleol a chreu galw a marchnadoedd ar gyfer y cynhyrchion. Rhwydweithio lleol yn cysylltu rhwydweithiau cynhyrchwyr, prynwyr a dosbarthu. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Antur Teifi a Chyngor Sir Ceredigion.

Annog Gweithgaredd Twristiaeth

- **Buddsoddiad wedi'i dargedu'n ddaearyddol mewn llety, cyfleusterau neu isadeiledd llai:** Buddsoddiad wedi'i dargedu'n ddaearyddol sydd am wella ardaloedd megis ardal fynyddig Ceredigion uwchben Tregaron fel cyrchfan ymwelwyr drwy fuddsoddi ar raddfa fach mewn llety, hawliau tramwy, a gweithgareddau awyr agored i dwristiaid. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Ymddiriedolaeth Eluned, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Comisiwn Coedwigaeth a Menter a Busnes.
- **Buddsoddi mewn twristiaeth amgylcheddol ar raddfa lai sy'n datblygu amgylchedd gwledig Ceredigion i'r eithaf:** Buddsoddi ar raddfa fach mewn nodweddion twristiaeth amgylcheddol sy'n gwella amgylchedd gwledig Ceredigion. Hawl tramwyo, golygfannau, adfer safleoedd mewn ardaloedd o werth twristaidd,

cyfleoedd twristiaeth ar thema'r amgylchedd, pecyn teithio cysylltiedig rhwng mannau llety gwledig er mwyn i ymwelwyr fedru teithio drwy ddulliau eraill heblaw car a chael eu bagiau wedi'u cludo iddynt. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Grwpiau Menter, Cynghorau Bro, y Cyngor Sir, Antur Teifi, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Menter a Busnes.

Cymorth i ddigwyddiadau lleol sy'n ychwanegu at y profiad twristaidd yng Ngheredigion ac yn cynorthwyo i frandio'r Sir fel cyrchfan unigryw a gwahanol: Buddsoddi ar raddfa fach mewn digwyddiadau sy'n ychwanegu hynodrwydd a diddordeb i Geredigion fel man i ymweld ag ef. Buddsoddiad i fod ar raddfa ostyngol er mwyn sicrhau ymdrech i wneud y digwyddiadau hyn yn gynaliadwy. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Grwpiau Menter, Antur Teifi a Menter a Busnes.

- **Cymorth i farchnata mentrau penodol sy'n canolbwyntio ar "Dlysau" Ceredigion:** Buddsoddiad mewn marchnata mentrau bach penodol sydd am werthu nodweddion penodol Ceredigion sydd â photensial amlwg a phwysig o ran denu ymwelwyr. Mae enghreifftiau yn cynnwys yr Aber Teifi, Mynyddoedd yr Ucheldir, a Llwybr Arfordir Ceredigion. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Grwpiau Menter, a'r Cyngor Sir. Y canlyniad yw cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.
- **Cefnogaeth ar gyfer cynnyrch twristiaeth o werth uchel:** Buddsoddi ar raddfa fach mewn cynhyrchion twristiaeth arbenigol sydd â'r potensial i fod â gwerth uchel. Mae enghreifftiau yn cynnwys twristiaeth ceffylau a thwristiaeth ddiwylliannol / treftadaeth. Mae partneriaid posibl yn cynnwys yr Urdd Llangrannog, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, Theatr Mwldan

Gwasanaethau Sylfaenol ar gyfer Poblogaeth ac Economi gwledig

- **Buddsoddi ar raddfa fach mewn cyfleusterau cymunedol pentrefi sy'n gwella'r amgylchedd naturiol neu adeiledig ac sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd:** Buddsoddi ar raddfa fach mewn nodweddion megis meysydd pentref, gerddi cyhoeddus, neuaddau pentref, ardaloedd hamdden cyhoeddus, sef rhai sy'n gwella amgylchedd naturiol neu adeiledig ac sy'n cyfrannu at godi ansawdd bywyd poblogaeth wledig Ceredigion. Mae partneriaid posibl yn cynnwys y Cynghorau Bro, Neuaddau Cymunedol, a Grwpiau Menter.
- **Buddsoddi ar raddfa fach mewn gwasanaethau sylfaenol sy'n cyfrannu at les a bodlonrwydd poblogaeth wledig Ceredigion**: Buddsoddi ar raddfa fach mewn cyfleusterau megis pyllau nofio, canolfannau teulu, cyfleusterau trin camddefnyddio sylweddau a mentrau trafnidiaeth lleol. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Mentro Lluest, Waunifor, Grwpiau Menter, Antur Teifi, ymddiriedolaethau pwll nofio, canolfannau teulu, a mudiadau camddefnyddio sylweddau.
- **Buddsoddi ar raddfa fach mewn mentrau trafnidiaeth arloesol neu wedi'u harwain gan y gymuned sy'n cynorthwyo i fynd i'r afael â pherifferoldeb gwledig** Buddsoddi mewn mentrau trafnidiaeth lleol arloesol sy'n rhoi sylw i broblemau penodol yn lleol. Mae partneriaid posibl yn cynnwys CAVO, Grwpiau Menter a'r Cyngor Sir.

Adnewyddu, Datblygu a Gwarchod Pentrefi / Uwchraddio'r Dreftadaeth Wledig

- **Buddsoddi ar raddfa fach yn nhreftadaeth adeiledig Ceredigion:** Buddsoddi ar raddfa fach mewn nodweddion treftadaeth a'u dehongliad sy'n gwella eu hapêl i ymwelwyr, yn ychwanegu gwerth economaidd ac yn cyfrannu at y profiad ymwelwyr

yng Ngheredigion. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Hanes Aberteifi, Grwpiau Menter, Waunifor, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

- **Buddsoddi ar raddfa fach yn nodweddion treftadaeth aneddiadau ardal Cymunedau'n Gyntaf Tregaron a'r Ucheldir:** buddsoddi wedi'i dargedu ar raddfa fach sy'n galluogi gwella y nodweddion treftadaeth pentrefi yn Ardal Cymunedau'n Gyntaf Ucheldiroedd Tregaron. Mae partneriaid posibl yn cynnwys y Cyngor Sir, a'r Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol.
- **Buddsoddi ar raddfa fach yn nhreftadaeth naturiol (amgylcheddol) Ceredigion:** Buddsoddi ar raddfa fach yn nodweddion amgylcheddol naturiol sydd ar gael i ymwelwyr ac sy'n ychwanegu gwerth economaidd, dealltwriaeth a diddordeb i'r nodweddion hynny. Mae partneriaid posibl yn cynnwys y Cyngor Sir, Grwpiau Menter, Ymddiriedolaeth Shared Earth, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt de-orllewin Cymru.
- **Mentrau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar ôl-troed amgylcheddol Ceredigion:** Ariannu gwaith archwilio a rhoi cyngor er mwyn chodi proffil yr achos, yn ogystal ag effaith gweithrediadau unigol ar newid yn yr hinsawdd ac ar ôl-troed amgylcheddol Ceredigion. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Ymlaen Ceredigion ac Antur Teifi.
- **Mentrau wedi'u targedu sy'n hybu'r defnydd o dir nad yw'n amaethyddol ac nad yw'n cael ei ddefnyddio neu sydd dan fygythiad o beidio â chael ei ddefnyddio:** Buddsoddi ar raddfa fach i wella defnydd tir nad yw'n amaethyddol megis tir diffaith, coedwigaeth a darnau eraill o dir nad ydynt yn gynhyrchiol. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Antur Teifi, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaeth Shared Earth a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Hyfforddiant a Gwybodaeth i actorion Economaidd yng ngweithgaredd Echel 3

- **Hyfforddiant sgiliau wedi'i dargedu at unigolion er mwyn galluogi incwm ychwanegol:** Hyfforddiant sgiliau sy'n mynd i'r afael ag anghenion lleol iawn ac sy'n cyfrannu at godi incwm cartrefi. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Canolfan Deulu Llandysul, Antur Teifi, Ardal 43 a Menter a Busnes.
- **Hyfforddiant sgiliau wedi'i dargedu i greu cyfleoedd gwaith a lleihau eithrio economaidd:** hyfforddiant sgiliau lleol sy'n ymwneud â grwpiau sydd wedi'u heithrio yn gymdeithasol gan ddefnyddio sianeli ymgysylltu arbenigol i recriwtio a chadw unigolion. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Rhoserchan, Ardal 43 a Mentro Lluest.
- **Hyfforddiant arbenigol i Ficro-fentrau Ceredigion er mwyn cynyddu eu heffeithiolrwydd a'u gallu i wneud elw:** Hyfforddiant a gynhelir yn lleol sy'n mynd i'r afael â phrinder sgiliau penodol ym Micro-fentrau Ceredigion er mwyn iddynt allu gwneud mwy o elw a bod yn fwy cynaliadwy. Mae partneriaid posibl yn cynnwys Menter a Busnes, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth ac Ymlaen Ceredigion.
- **Hyfforddiant sgiliau traddodiadol i ateb anghenion treftadaeth Ceredigion:** Hyfforddiant sgiliau arbenigol sy'n gysylltiedig â thechnegau traddodiadol sydd eu hangen i gadw, cynnal a datblygu llawer o asedau treftadaeth Ceredigion. Mae partner posibl yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- **Mentrau sydd am wella ffyrdd iach o fyw yng Ngheredigion:** Hyfforddiant a chyngor lleol sydd â'r nod o wella ffyrdd o fyw iach poblogaeth wledig Ceredigion. Partner posibl: Ymlaen Ceredigion.

Ysgogi / Meithrin Sgiliau

- **Adnabod dulliau amgen a ffynonellau amgen incwm ar gyfer teuluoedd sy'n ffermio a'r cymunedau gwledig:** gall hyn gynnwys llwybrau cerdded a llety, pecynnau bwyd lleol, datblygu cyfleoedd i bobl ifanc aros yn eu cymuned leol. Datblygu'r profiad fferm cyflawn. Partner posibl: Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion
- **Gweithio â gweithgareddau a grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynyddu entrepreneuriaeth:** i gynnwys gweithgareddau datblygu a gwella ansawdd cynnyrch/gwasanaeth a dosbarthu. Meithrin entrepreneuriaeth a datblygiad personol. Partner posibl: Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion, CAVO, Gweithredu dros Gymunedau Gwledig (RCA) Cynnal Ceredigion
- **Datblygu gweithgareddau rhwng cenedlaethau** - sicrhau trosglwyddo sgiliau a datblygu'r sgiliau hynny sy'n ateb anghenion y farchnad bresennol: cydnabod yr amrywiaeth o sgiliau sydd ar gael ac annog y cenedlaethau i gydweithio ac ennill parch, cyfrifoldeb a sgiliau arwain. Hyn i gynnwys datblygu mentoriaid lleol. Partner posibl: Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion, Partneriaeth Pobl Ifanc, Fforwm 50+
- **Ysgogi, wedi'i dargedu'n ddaearyddol at boblogaeth wledig**, mynd i'r afael ac adnabod camau gweithredu y gellir eu gwneud ar y cyd i godi incymau: Adnabod a gweithio â hynodrwydd yr ardal ac adnabod y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu cyfleoedd i wella ansawdd bywyd a meithrin balchder yn y gymuned. Datblygu clystyrau ar raddfa fach. Partner posibl: Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion, Menter a Busnes
- **Rhwydweithio ac ymwneud â grwpiau lleol ac unigolion a rhyngddynt**: rhoi cymorth a chydweithio â rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol gan gynnwys rhannu arferion da. I gynnwys archwilio a buddsoddi mewn ffyrdd arloesol o gyrraedd ac ymgysylltu â phobl ac integreiddio poblogaeth wledig. Partner posibl: Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion, Ceredigion 2020.

CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU, RHAGLENNI A MENTRAU ERAILL

Y Strategaeth Gymunedol

Y dull a fabwysiadwyd yng Ngheredigion yw ymgorffori'r Strategaeth Datblygu Lleol ym mhroses y strategaeth gymunedol. Mae'r bartneriaeth yn un o'r partneriaethau thematig sy'n cefnogi partneriaeth y strategaeth gymunedol, Ceredigion 2020. Mae Cadeirydd Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion yn aelod llawn o bartneriaeth y strategaeth gymunedol. Mae Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion hefyd yn gweithredu fel Grŵp Thematig 'Cymunedau Cryfach' ac mae ganddo'r cyfrifoldeb trawsbynciol o fewn y Strategaeth am ymgysylltu â'r gymuned. Trafodwyd a chadarnhawyd y cynigion gan Geredigion 2020 yn ei gyfarfod ar Ionawr 22^{ain} 2007. Wrth ddatblygu'r dull o fynd ati, mae Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion wedi dod â phartneriaethau a grwpiau thematig eraill yn 'nheulu'r strategaeth gymunedol' yn rhan ohono, drwy eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd a rhannu agendâu a phapurau yn ogystal â thrwy gymryd rhan weithredol yn y rhwydweithiau sy'n cefnogi'r partneriaethau hyn.

Cynllun Gofodol Cymru a chysylltiadau â'r Rhaglenni Cydgyfeirio

Mae'r bartneriaeth wedi ceisio datblygu'r strategaeth hon drwy gadw at y Cynllun Gofodol ac mae'n croesawu'r cyfle i Grŵp Canolbarth Cymru ei ystyried. Mae'r Strategaeth am arwain y cyllid adfywio yng Ngheredigion a ddaw o lawer o ffynonellau ac felly ceisia pedwerydd Amcan Strategol y strategaeth hon adlewyrchu'r Cynllun. Bydd y strategaeth hon yn fewnbwn pwysig i Fframwaith Gofodol Canolbarth Cymru ac yn gyswllt hanfodol wrth gysylltu anghenion, gobeithion a dymuniadau lleol â fframweithiau'r Rhaglenni Cydgyfeirio.

Y Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig – Cynnal Ceredigion

Mae'r bartneriaeth yn goruchwylio gwaith Cynnal Ceredigion ac yn derbyn adroddiadau chwarterol ar gynnydd y rhaglen honno. Mae'r cydweithio agos hwn a goruchwylio'r cyflenwi yn sicrhau, nid yn unig nad oes dyblygu ar ymdrech nac adnoddau, ond y llwyddir i gael y canlyniadau gorau posibl yma gan dynnu ar sgiliau a gallu sy'n bodoli eisoes yn y Sir. Mae Prif Gorff Cynnal Ceredigion, Antur Teifi, yn aelod llawn o'r bartneriaeth a cheir cydweithio agos wrth gyflenwi'r rhaglen. Caiff gwybodaeth a dadansoddiad eu rhannu ac mae'r cynigion ar gyfer blaenoriaethau Echel 4 yn tynnu ar y profiad o Weithredu dros Gymunedau Gwledig (RCA) yng Ngheredigion ac mae Antur Teifi yn aelodau o'r Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion. Mae llawer o aelodau Partneriaeth Economaidd Ceredigion yn weithgar yn y rhaglen RCA.

Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf

Mae dwy Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf yng Ngheredigion. Mae cysylltiadau wedi'u meithrin i'r dull arfaethedig o fynd ati, ac mae cynrychiolwyr y Bartneriaeth yn rhan weithredol o Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion. Oherwydd y rheolaeth linell gyffredin yn rhinwedd swyddogaeth 'Prif Gorff' yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol yn y Cyngor Sir, mae modd cysylltu ymhellach rhwng cyflenwi Echeli 3 a 4 a Chymunedau'n Gyntaf wrth weithio ar lefel 'llawr gwlad' a meithrin gallu'r gymuned .

Adolygir y strategaeth hon yn rheolaidd gan y bartneriaeth wrth i amgylchiadau allanol newid ac y ceir cynnydd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb gymryd rhan wrth weithredu a chyflenwi'r adfywio economaidd yng Ngheredigion.
Cydlynir y broses adolygu hon gan Bartneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion a bydd yn ystyried datblygiadau strategaethau eraill a rôl esblygol Cynllun Gofodol Cymru.

PROFIAD Y BARTNERIAETH ADFYWIO ECONOMAIDD CEREDIGION

Mae'r bartneriaeth wedi goruchwylio cyflenwi Rhaglen Amcan 1 yn lleol yng Ngheredigion ers iddi gael ei sefydlu yn y lle cyntaf. Mae'n dwyn ynghyd llawer o bartneriaid sydd wedi bod yn weithgar wrth gyflenwi rhaglenni blaenorol a ariannir yn ddomestig neu gan Ewrop. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion y Cyngor Sir a swyddogion mudiadau gwirfoddol, sy'n rhan o raglenni Amcan 5b a LEADER 1 a LEADER 2. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys y rhai sy'n cyflenwi mentrau megis y rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig (RCA) – Cynnal Ceredigion a phrosiectau unigol, a llawer ohonynt yn berthnasol i Echeli 3 a 4.

Mae'r aelodaeth yn rhoi cysywllt hanfodol wrth gydgysylltu ei waith â'r holl bartneriaethau eraill yn y Sir, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, drwy Bartneriaeth Ceredigion 2020.

Mae tîm y Prif Gorff/Ysgrifenyddiaeth yn weithredol yn rhwydweithio gyda'r partneriaethau a'u prif swyddogion priodol drwy'r bartneriaeth Grŵp Integreiddio a'r Grŵp Rhannu Data. Maent yn darparu ôl-ofal i brosiectau Amcan 1 a ariannir drwy'r ERDF, EAGFF a'r FIFG ac mae ganddynt brofiad helaeth o gefnogi llawer o brosiectau a arweinir gan y gymuned, llawer ohonynt o faint sylweddol. Mae ganddynt ystod o sgiliau wrth ddelio â phroblemau ac wrth gynnig cymorth i grwpiau i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau sy'n codi.

llwyddiant busnes, ffyniant a gwaith llawn o safon uchel drwy economi gwerth uchel, isel ei garbon.

Partneriaeth Adfywio Economaidd

Ceredigion

Economic Regeneration Partnership

Cadeirydd Annibynnol Bwrdd y Bartneriaeth

Independent Chair of Partnership Board

Yr Athro Roy Evans
Blwch Post 30 / Po Box 30
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0YG
Ffôn: 01545 572063
Ebost: ewro@ceredigion.gov.uk

***Partneriaid y Sector Gwirfoddol* / Voluntary Partners**		***Partneriaid y Sector Gymunedol* / Community Partners**		***Partneriaid O'r Sector Gyhoeddus* / Public Partners**		***Y Sector Breifat a Phartneriaid Cymdeithasol arall* / Private Sector & other Social Partners**	
Aelod Llawn Full Member	*Aelod Llanw* Alternate Member	*Aelod Llawn* Full Member	*Aelod Llanw* Alternate Member	*Aelod Llawn* Full Member	*Aelod Llanw* Alternate Member	*Aelod Llawn* Full Member	*Aelod Llanw* Alternate Member
***Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion*/CAVO**		***Un Llais i Gymru* /One Voice Wales**		***Cyngor Sir*/County Council**		***Twristiaeth* / Tourism**	
Hazel Lloyd	Sandra Morgan	Cyngh. Geraint Evans	Ms Nona Evans	Cyngh. Eurfyl Evans	Allan Lewis	Dee Reynolds	*
***Addysg Uwch* / Higher Education**		***Asiantaeth Fenter*/ Enterprise Agency**		***Llywodraeth Cynulliad Cymru / WAG***		***Undebau Llafur – Cyngor Undebau Llafur* / Trade Union (TUC)**	
Sarah Dykes	Ian Roffe	Dewi Williams	Rhiannon Thomas	Ann Watkin	Peter James	Geraint Davies	*
***Grŵp Amgylcheddol*/ Environmental Group**		***Partneriaeth Leol (De)*/ Local Partnership (South)**		**Ieuenctid / Youth**		***Amaethyddiaeth a Physgodfeydd* / Agriculture and Fisheries**	
		Teleri Davies	Greg Evans	Ann Sweeting		Ruth Davies	Lewis Griffith
Coleg Ceredigion		***Partneriaeth Leol (Gogledd)*/ Local Partnership (north)**		**Y Comisiwn Coedwigaeth / Forestry Commission**		***Siambr Fasnach Ceredigion* / Ceredigion Chamber of Commerce**	
Luned Jones	*	Louise Amery	Ann Ffrancon	Paul Finch	Debbie Westlake	Rod Pritchard	Julian Beynon-Lewis
Ymlaen Ceredigion						***Celfyddydau a Diwylliant*/ Arts & Culture**	
Bob Jacques	*					Dilwyn Davies	Alan Hewson
***Ieuenctid*/Youth**							
Phil Layton							

MANYLION CYSWLLT AELODAU LLAWN A LLANW Y BARTNERIAETH

Roy Evans	**Cadeirydd Annibynnol** d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG, Ffôn: 01545 572063

Partneriaid Gwirfoddol

Hazel Lloyd (Is-Gadeirydd)	CAVO, 67 Stryd y Bont, Llambed, SA48 7AB. Ffôn: 01570 423232
Sandra Morgan	CAVO, 67 Stryd y Bont, Llambed, SA48 7AB. Ffôn: 01570 423232
Sarah Dykes	Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 9 Maes Lowri, Aberystwyth, SY23 2AX. Ffôn: 01970 622080
Yr Athro Ian Roffe	Prifysgol Cymru Llambed, Canolfan Fenter, Stryd y Coleg, Llambed, SA48 7ED. Ffôn: 01570 424906
Luned Jones	Coleg Ceredigion, Campws Llanbadarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3BP
Bob Jacques	Ymlaen Ceredigion, 15-17 Ffordd Portland, Aberystwyth, SY23 2NL. Ffôn: 01970 633395
Phil Layton	Ardal 43, 1 Pont Cleifion, Aberteifi, Ffôn: 01239 614566

Partneriaid Cymunedol

Cyngh. Geraint Evans	Un Llais i Gymru, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG. Ffôn: 01545 572063
Nona Evans	Un Llais i Gymru, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG. Ffôn: 01545 572063
Dewi Williams	Antur Teifi, Parc Busnes, Aberarad, Castell Newydd Emlyn, SA39 9DB. Ffôn: 01239 710238
Rhiannon Thomas	Antur Teifi, Parc Busnes, Aberarad, Castell Newydd Emlyn, SA39 9DB. Ffôn: 01239 710238
Teleri Davies	Menter Llambed, Swyddog Datblygu, Prifysgol Llambed, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. Ffôn: 01570 423886
Greg Evans	Menter Llambed, Cadeirydd, Prifysgol Llambed, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. Ffôn: 01570 423886
Louise Amery	Menter Aberystwyth, Swyddfa B6, Y Cambria, Ffordd y Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Ffôn: 01970 624912
Ann Ffrancon	Menter Aberystwyth, Swyddfa B6, Y Cambria, Ffordd y Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Ffôn: 01970 624912

Partneriaid Cyhoeddus

Cyngh. Eurfyl Evans	Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. Ffôn: 01545 572029
Allan Lewis	Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. Ffôn: 01545 572029
Ann Watkin	Llywodraeth Cynulliad Cymru; DEIN, Y Lanfa, Trefechan, Aberystwyth, SY23 1AS. Ffôn: 01970 613226
Peter James	Llywodraeth Cynulliad Cymru; DEIN, Y Lanfa, Trefechan, Aberystwyth, SY23 1AS. Ffôn: 01970 613226
Ann Sweeting	Cyngor Sir Ceredigion, Swyddfa'r Sir, Ffordd y Môr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2DE. Ffôn: 01970 633712

Paul Finch	Y Comisiwn Coedwigaeth, Tŷ Fictoria, Rhodfa Fuddug, Aberystwyth, SY23 2DQ. Ffôn: 0845 604 0805
Debbie Westlake	Y Comisiwn Coedwigaeth, Tŷ Fictoria, Rhodfa Fuddug, Aberystwyth, SY23 2DQ. Ffôn: 0845 604 0805

Partneriaid Preifat a Phartneriaid Cymdeithasol Eraill

Dee Reynolds	Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, Tŷ Glyndwr, Machynlleth, SY20 8WW. Ffôn: 01654 704220
Geraint Davies	NASUWT, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG, Ffôn: 01545 572063
Ruth Davies	NFU, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG. Ffôn: 01545 572063
Lewis Griffith /	FUW, 1 Ffordd y Gogledd, Aberaeron, SA46 0JE. Ffôn: 01545 571222
Owen Jenkins	FUW, 1 Ffordd y Gogledd, Aberaeron, SA46 0JE. Ffôn: 01545 571222
Rod Pritchard	Siambr Fasnach Ceredigion, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG. Ffôn: 01545 572063
Julian Beynon-Lewis	Siambr Fasnach Ceredigion, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG. Ffôn: 01545 572063

Ymgynghorwyr

Sue Byrne	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ann Rybij	Croeso Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Matthew Ross	Asiantaeth yr Amgylchedd
Alan Dutton	Canolfan Byd Gwaith
Sue Hurds	Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion
Rachel Russell	Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS)
Lowri Edwards	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Swyddog ar gyfer Ceredigion 2020)
Mark Elliot	Cyngor Sir Ceredigion

PRIF GORFF AC YSGRIFENYDDIAETH

Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

01545 572063
ebost: **ewro@ceredigion.gov.uk**

AELODAU GRŴP GWEITHREDU LLEOL CEREDIGION

Aelodaeth Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion

Aelodau Economaidd	Dewi Williams	Antur Teifi, Parc Busnes, Aberarad, Castell Newydd Emlyn, SA39 9DB
	Cyngor Sir Ceredigion	Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA
	Eirwen Williams	Menter a Busnes
Aelodau Cymdeithas Ddinesig	Ruth Davies	NFU, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG
	Owen Jenkins	1 Ffordd y Gogledd, Aberaeron, SA46 0JE
	Alan Wilson	Menter Aberteifi, Green Villas, Aberteifi, SA43 1JA
	Greg Evans	Menter Llambed, Prifysgol Llambed, Llambed, Ceredigion
	Gill Hopley	Dat. Cei, Tŷ Paragon, Hen Siambr y Cyngor, Maes yr Odyn, Cei Newydd, SA45 9NS
	Peter Lloyd Harvey	Ty Lasbren, Pont-rhyd-y-groes, Ystrad Meurig, Ceredigion, SY25 6DQ
	Ray Quant	Menter Aberystwyth, Swyddfa B6, Y Cambria, Stryd y Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ
	Keith Evans	Menter Llandysul Pontweli Ymlaen, yr hen Swyddfa'r Bost, Ffordd Newydd, Llandysul, SA44 4QJ
	Andy Rowland	Ecodyfi, Uned 1, Parc Eco Dyfi, Machynlleth, SY20 8AX
	Elizabeth Evans	Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, SY23 1JH
	Gareth Lloyd	CFFI Ceredigion, 1 Ffordd y Gogledd, Aberaeron, SA46 0JD
	Bethan Williams	WI, Hendre, Llangrannog, Ceredigion
	Ionwen Lewis	Undeb Bwyd a Ffermio y Menywod,
	Eirwen James	Cymunedau yn Gyntaf Tregaron a'r Ucheldir, Neuadd Goffa, Y Sgwâr, Tregaron, SY25 6JL
	Chris Simpson	Cymunedau'n Gyntaf Aberystwyth a Phenparcau, 11 Stryd y Popty, Aberystwyth, SY23 2BJ
Aelodau Cymdeithasol	Hazel Lloyd	CAVO, 67 Stryd y Bont, Llambed, SA48 7AB
	Dwynwen Lloyd Evans	Theatr Felinfach (Pwerdai), Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron, Ceredigion, SA48 8AF
	Dilwyn Jones	Cered, (Menter Iaith Ceredigion), Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron, Ceredigion, SA48 8AF
	Ben Davies	Un Llais i Gymru, d/o Blwch Post 30, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0YG

Atodiad 1
Proffil Ceredigion

Poblogaeth Breswyl Ceredigion

Amcangyfrifon	Miloedd
Mehefin 2005	78.3
Mehefin 2004	78.1
Mehefin 2003	77.2
Mehefin 2002	76.5
Mehefin 2001	75.4

Cyfanswm Poblogaeth

	Ceredigion (niferoedd)	Cymru (niferoedd)	Prydain (niferoedd)
Pawb	77,200	2,938,000	57,851,100
Dynion	37,800	1,425,600	28,275,200
Menywod	39,400	1,512,400	29,575,900

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn (2003)

Mae'r amcangyfrif poblogaeth yn cynnwys pawb sy'n byw yn yr ardal fel rheol, beth bynnag fo'u cenedl. Eithrir lluoedd Ei Mawrhydi sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig ond cynhwysir lluoedd dramor sydd wedi'u lleoli yma. Ystyrir myfyrwyr i fod yn breswylwyr eu cyfeiriad yn ystod y tymor.

Poblogaeth oedran gweithio
Mae'r canrannau yn seiliedig ar yr holl boblogaeth.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Pawb - oedran gweithio	47,900	62.0	59.6	61.4
Dynion - oedran gweithio	24,800	65.6	62.8	64.6
Menywod - oedran gweithio	23,100	58.5	56.5	58.3

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn (2003)

Mae'r **oedran gweithio** yn cynnwys dynion 16 i 64 oed a menywod 16 i 59 oed.

Cyflenwad Llafur

Yn economaidd weithgar
Mae'r canrannau yn seiliedig ar y boblogaeth oedran gweithio, oni bai am y di-waith sydd yn seiliedig ar yr economaidd weithgar.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Pawb				
Yn economaidd weithgar	35,000	72.9	74.2	78.2
Mewn gwaith	33,000	68.0	70.5	74.3

Gweithwyr cyflogedig	24,000	49.7	61.6	64.8
Hunangyflogedig	8,000	17.7	8.4	9.0
Yn ddi-waith	2,000	6.7	5.1	5.0
Dynion				
Yn economaidd weithgar	18,000	74.1	78.6	83.4
Mewn gwaith	17,000	67.7	74.0	78.9
Gweithwyr cyflogedig	11,000	42.6	61.4	65.5
Hunangyflogedig	6,000	24.3	12.0	13.0
Yn ddi-waith	2,000	8.6	5.9	5.4
Menywod				
Yn economaidd weithgar	17,000	71.6	69.6	72.8
Mewn gwaith	16,000	68.3	66.7	69.5
Gweithwyr cyflogedig	13,000	57.3	61.7	64.2
Hunangyflogedig	2,000	10.5	4.5	4.8
Yn ddi-waith	1,000	4.6	4.2	4.5

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: arolwg gweithlu ardal leol (Mawrth 2003-Chwefror 2004)

Daeth y ffigyrau ar gyfer y tablau economaidd weithgar a segur o'r Arolwg Gweithlu Ardal Leol blynyddol. Mae set ddata Arolwg Gweithlu ardal leol blynyddol yn cynnwys arolygon a gynhaliwyd rhwng Mawrth a Chwefror bob blwyddyn. Gan fod amcangyfrifon yr Arolwg Gweithlu yn seiliedig ar samplau ystadegol, maent yn amodol ar amrywioldeb samplu. Golyga hyn pe llunnid sampl arall ar gyfer yr un cyfnod, efallai y ceid amcangyfrif gwahanol. Fel rheol, po fwyaf o bobl yn y sampl, po leiaf yr amrywiad rhwng amcangyfrifon. Mae amcangyfrifon ar gyfer Ceredigion felly yn llai dibynadwy na'r rheiny ar gyfer ardaloedd mwy megis rhanbarthau. Pan ystyrir bod maint y sampl yn rhy fach i lunio amcangyfrifon dibynadwy, rhoddir # yn y tablau yn lle amcangyfrif.
Cytunir ar y cysyniadau a'r diffiniadau yn yr Arolwg Gweithlu gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), asiantaeth y Cenhedloedd Unedig. Gan eu bod yn arolwg cartrefi, mae'r ffigyrau yn gysylltiedig â ble mae pobl yn byw.

Yn economaidd weithgar: Pobl 16 oed neu'n hŷn sydd un ai'n gyflogedig neu'n ddi-waith.
Graddfa gweithgarwch economaidd (oedran gweithio): Nifer y bobl sy'n economaidd weithgar 16 oed i 59/64, fel canran o bawb sydd o oedran gweithio.
Mewn gwaith: Pobl 16 oed neu hŷn a wnaeth gwaith am dâl yn yr wythnos gyfeiriol (boed fel gweithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig); y rheiny oedd â swydd ond i ffwrdd dros-dro (ar wyliau, er enghraifft); y rheiny ar raglenni gwaith a hyfforddiant a gefnogir gan y Llywodraeth; a'r rheiny sy'n gwneud gwaith teuluol yn ddi-dâl.
Graddfa Cyflogaeth (oedran gweithio): Y nifer o bobl mewn gwaith cyflogedig rhwng yr oedran 16 a 59/64 fel canran o bawb sydd o oedran gweithio.
Gweithwyr cyflogedig a hunangyflogedig: Mae'r rhaniad rhwng gweithwyr cyflogedig a'r hunangyflogedig yn seiliedig ar arolwg o asesiad yr atebwyr o'u statws cyflogedig eu hunain. Dengys y canran y nifer ym mhob categori fel canran o'r holl bobl sydd o oedran gweithio.
Di-waith: Mae hwn yn cyfeirio at bobl heb swydd oedd ar gael i ddechrau gwaith yn y pythefnos ar ôl eu cyfweliad Arolwg Gweithlu ac a oedd un ai wedi chwilio am waith yn y pedair wythnos cyn y cyfweliad neu oedd yn aros i ddechrau swydd yr oeddynt eisoes wedi'i chael.
Cyfradd diweithdra (oedran gweithio): Dengys y nifer o bobl ddi-waith 16 i 59/64 oed fel canran o'r boblogaeth 16 i 59/64 oed sy'n economaidd weithgar

Yn economaidd segur

Mae'r canrannau yn seiliedig ar y boblogaeth oedran gweithio.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Pawb				
Yn economaidd segur	13,000	27.1	25.8	21.8
Eisiau swydd	3,000	5.5	6.1	5.7
Ddim eisiau swydd	10,000	21.6	19.6	16.1
Dynion				

Yn economaidd segur	6,000	25.9	21.4	16.6
Eisiau swydd	1,000	5.5	5.2	4.7
Ddim eisiau swydd	5,000	20.4	16.2	11.9
Menywod				
Yn economaidd segur	7,000	28.4	30.4	27.2
Eisiau swydd	1,000	5.5	7.1	6.7
Ddim eisiau swydd	5,000	22.9	23.3	20.5

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: arolwg gweithlu ardal leol (Mawrth 2003-Chwefror 2004)

Yn economaidd segur: y bobl hynny nad ydynt mewn gwaith nac yn ddi-waith. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys, er enghraifft, pawb sy'n edrych ar ôl y cartref neu wedi ymddeol.
Eisiau swydd: pobl nad ydynt mewn gwaith ond sydd eisiau swydd, ond nid ystyrir hwy yn ddi-waith oherwydd nid ydynt wedi chwilio am waith neu nid oeddynt yn gallu dechrau gweithio yn y pedair wythnos diwethaf.
Ddim eisiau swydd: pobl nad ydynt mewn gwaith nac yn ddi-waith ac nid ydynt eisiau swydd.

Gwaith yn ôl swyddi

Mae'r canrannau yn seiliedig ar bawb sydd mewn gwaith.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Prif grŵp SOC 2000 1-3	13,000	37.1	36.1	40.5
1 rheolwyr a swyddogion hŷn	5,000	14.3	12.1	14.6
2 swyddi proffesiynol	4,000	12.8	10.9	12.1
3 swyddi proffesiynol cysylltiedig a thechnegol	3,000	10.1	13.1	13.8
Prif grŵp SOC 2000 4-5	9,000	27.7	25.3	24.4
4 gweinyddol ac ysgrifenyddol	3,000	10.1	12.2	13.0
5 swyddi crefftwyr	6,000	17.6	13.0	11.4
Prif grŵp SOC 2000 6-7	5,000	15.2	16.2	15.5
6 swyddi gwasanaeth personol	3,000	9.2	7.9	7.5
7 swyddi gwerthu a gwasanaeth i gwsmeriaid	2,000	6.0	8.3	8.0
Prif grŵp SOC 2000 8-9	7,000	19.9	22.3	19.6
8 gweithwyr peiriannau a gweithfeydd	2,000	5.9	9.7	7.7
9 swyddi syml	5,000	14.0	12.6	11.8

Hawlfraint y Goron ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Ardal Leol (Mawrth 2003-Chwefror 2004)

Cymwysterau

Mae'r holl ffigyrau ar gyfer oedran gweithio. I gael esboniad o'r lefelau cymhwyster, gweler yr adran diffiniadau.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
CGC 4 ac uwch	12,000	24.8	22.5	25.2
CGC 3 ac uwch	24,000	49.1	40.2	43.1
CGC 2 ac uwch	33,000	69.1	60.3	61.5
CGC 1 ac uwch	39,000	80.7	74.2	76.0
Cymwysterau eraill	3,000	6.3	8.0	8.8

Dim Cymwysterau	6,000	13.0	17.8	15.1

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Ardal Leol (Mawrth 2003-Chwefror 2004)

Cymwysterau

Dim cymwysterau: Dim cymwysterau ffurfiol ganddynt
Cymwysterau eraill: sy'n cynnwys cymwysterau dramor a rhai cymwysterau proffesiynol
Cyfateb i CGC (NVQ) 1: e.e. llai na 5 TGAU graddau A-C, GNVQ sylfaenol, CGC 1, cymhwyster cenedlaethol canolradd 1 (yr Alban) neu rywbeth cyfatebol.
Cyfateb i CGC (NVQ) 2: e.e. 5 TGAU neu fwy - graddau A-C, GNVQ canolradd, CGC 2, cymhwyster cenedlaethol canolradd 2 (yr Alban) neu rywbeth cyfatebol.
Cyfateb i CGC (NVQ) 3: e.e. 2 Lefel A neu fwy, GNVQ pellach, CGC 3, dau neu fwy o gymwysterau cenedlaethol uwch neu bellach (yr Alban) neu rywbeth cyfatebol.
Cyfateb i CGC 4 ac uwch: e.e. HND, Gradd neu gymwysterau Gradd Uwch neu rywbeth cyfatebol.

Enillion y Cartref

Cyfartaledd cyflog gweithwyr sy'n byw yn yr ardal mewn punnoedd.

	Ceredigion (punnoedd)	Cymru (punnoedd)	Prydain (punnoedd)
Cyflog wythnosol gros			
Gweithwyr llawn-amser	#	416.0	475.8
Dynion sy'n gweithio'n llawn-amser	#	449.8	525.0
Menywod sy'n gweithio'n llawn-amser	#	358.4	396.0
Cyflog wrth yr awr			
Gweithwyr llawn-amser	#	10.5	12.0
Dynion sy'n gweithio'n llawn-amser	#	10.9	12.8
Menywod sy'n gweithio'n llawn-amser	#	9.6	10.6

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: Arolwg Enillion newydd: ystadegau ar sail cartrefi yn ôl galwedigaethau SOC 2000 (2003)

Nifer yr enghreifftiau yn rhy fychan i gael amcangyfrif dibynadwy

Enillion y cartref
Dengys y ffigyrau hyn gyfartaledd cyflog mewn punnoedd y gweithwyr hynny sy'n byw yn yr ardal ac sydd ar raddfa cyflog oedolion ac nad effeithiwyd ar eu cyflog gan absenoldeb. Daw'r ffigyrau am yr enillion o'r Arolwg Newydd ar Enillion (NES). Seilir yr arolwg hwn ar sampl o 1 y cant o weithwyr, gan gael gwybodaeth ynghylch cyflog ac oriau oddi wrth y cyflogwyr. Nid yw'r arolwg yn cynnwys pobl hunangyflogedig. Yn 2003 roedd yr wybodaeth yn berthnasol i'r cyfnod talu gan gynnwys 9 Ebrill.
Mae'r wybodaeth ynghylch cyflogau yn sôn am gyflog gros cyn treth, yswiriant cenedlaethol neu symiau eraill a dynnwyd o'r cyflog, ac nid yw'n cynnwys taliadau mewn nwyddau. Mae wedi'i gyfyngu i enillion yn ystod cyfnod talu'r arolwg ac felly nid yw'n cynnwys ôl-daliadau o gyfnod blaenorol a wnaed yn ystod cyfnod yr arolwg. Ni chynhwysir ychwaith unrhyw daliadau yn ddyledus oherwydd cytundeb ariannol na thalwyd yn ystod yr arolwg.
Efallai y bydd amcangyfrifon Arolwg NES o Nomis ychydig yn wahanol i'r rhai a gynhyrchir yn uniongyrchol gan ONS (e.e. cyfrolau cyhoeddedig) oherwydd fod sail ddaearyddol wahanol iddynt. Yn hyn o beth rhoddir statws swyddogol i'r amcangyfrifon a gynhyrchir gan ONS gan Ystadegau Cenedlaethol.

Budd-daliadau i'r rhai o oedran gweithio

Telir Lwfans Ceiswyr Gwaith i bobl sy'n iau nag oed pensiwn ac sydd ar gael i weithio o leiaf 40 awr yr wythnos ac sy'n weithgar wrth chwilio am waith.

Cyfanswm y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith

Dengys y canrannau y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith fel cyfran o'r preswylwyr sydd o oedran gweithio.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Pawb	689	1.4	2.2	2.2
Dynion	496	2.0	3.2	3.1
Menywod	193	0.8	1.1	1.2

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: cyfrif y nifer sy'n hawlio o ran cyfraddau a chyfrannau (Rhagfyr 2004)

Cofnoda'r cyfrif o'r nifer sy'n hawlio'r Lwfans Ceiswyr Gwaith y nifer wnaeth gais am y Lwfans a'r credydau Yswiriant Gwladol mewn swyddfeydd lleol o Ganolfan Byd Gwaith. Rhaid i bobl sy'n ceisio am Lwfans Ceiswyr Gwaith ddatgan eu bod yn ddi-waith, yn gallu gweithio, ar gael i weithio ac yn chwilio'n weithgar am waith yn ystod yr wythnos y gwneir yr hawliad.
Dengys y canrannau'r nifer sy'n hawlio sy'n byw yn yr ardal fel canran o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio yn yr ardal. Diffinnir oedran gweithio fel 16-64 ar gyfer dynion a 16-59 ar gyfer menywod. O'r amcangyfrifon poblogaeth canol 2002 y daw'r ffigyrau ynghylch nifer y boblogaeth sydd o oedran gweithio a ddefnyddir i gyfrifo cyfrannau sy'n hawlio'r lwfans.
Deillia'r cyfrif am gyfanswm y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceisiwr Gwaith yn bennaf o gofnodion cyfrifiadurol Canolfan Byd Gwaith. Oherwydd nifer o resymau gwahanol, e.e. pan na wyddys rhif Yswiriant Gwladol yr hawliwr, rhaid trin rhai hawliadau â llaw mewn swyddfeydd lleol. Cyfrifir yr hawliadau clercio hyn, sy'n cyfrif am lai nag 1 y cant o'r cyfanswm, ar wahân ac ni chânt eu dadansoddi i'r fath fanylder â'r hawliadau cyfrifiadurol. Mae cyfanswm y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith yn cynnwys hawliadau clercio, ond dim ond yr hawliadau cyfrifiadurol a ddadansoddir yn ôl oed a hyd yr hawliad.

Y nifer sy'n hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith yn ôl oed a pha mor hir maent wedi hawlio

Mae'r canrannau yn cynrychioli'r nifer oedd yn hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith mewn categori arbennig fel canran o'r holl rai oedd yn hawlio'r lwfans hwn.

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Yn ôl oed y ceisiwr gwaith				
18-24 oed	215	31.9	32.8	27.8
25-49 oed	310	45.6	49.7	54.0
50 oed ac yn hŷn	145	21.5	16.4	16.9
Yn ôl hyd y cais				
Hyd at 6 mis	550	81.4	73.0	69.0
Mwy na 6 mis a hyd at 12 mis	65	9.7	13.1	15.8
Mwy na 12 mis	60	8.8	13.9	15.2

Hawlfraint y Goron: cyfrif y nifer sy'n hawlio – oedran a pha mor hir oeddynt yn hawlio (Rhagfyr 2004)

Y galw am lafur

Dwysedd Swyddi

Cynrychiola'r dwysedd swyddi gymhareb cyfanswm y swyddi ar gyfer y boblogaeth oed gweithio.

	Ceredigion (swyddi)	Ceredigion (dwysedd)	Cymru (dwysedd)	Prydain (dwysedd)
Dwysedd Swyddi	33,000	0.7	0.7	0.8

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: dwysedd swyddi (2002)

Y nifer o swyddi am bob preswylydd o oedran gweithio (16-59/64). Er enghraifft, byddai dwysedd swydd o 1.0 yn golygu bod un swydd ar gyfer pob preswyliwr o oed gweithio. Mesurwyd cyfanswm y nifer o swyddi ar sail y gweithle ac mae'n cynnwys gweithwyr cyflogedig,

hunangyflogedig, rhai dan hyfforddiant yn derbyn cefnogaeth y llywodraeth a'r Lluoedd Arfog. Mae'r ffigyrau ynghylch y nifer o breswylwyr sydd o oed gweithio a ddefnyddir i gyfrif dwysedd swyddi yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-2001

Swyddi Gweithwyr

Mae'r canrannau yn seiliedig ar gyfanswm swyddi gweithwyr.

	Ceredigion (swyddi gweithwyr)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Cyfanswm swyddi gweithwyr	23,177	-	-	-
Llawn amser	13,406	57.8	66.2	68.1
Rhan amser	9,771	42.2	33.8	31.9
Cynhyrchu	1,231	5.3	16.1	12.6
Adeiladau	782	3.4	4.2	4.4
Gwasanaethau	20,899	90.2	77.9	81.4
Dosbarthu, gwestai a bwytai	6,263	27.0	23.5	24.7
Teithio a Chyfathrebu	815	3.5	4.6	6.0
Arian, TG, gweithgareddau busnes eraill	2,187	9.4	11.9	19.8
Gweinyddiaeth, addysg ac iechyd cyhoeddus	10,129	43.7	32.8	25.8
Gwasanaethau eraill	1,505	6.5	5.0	5.2
Yn ymwneud â thwristiaeth	2,893	12.5	8.1	8.1

Hawlfraint y Goron ffynhonnell: dadansoddiad gweithwyr yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2003)

Swyddi gweithwyr
Y nifer o swyddi sydd gan weithwyr. Daw'r wybodaeth o'r Ymchwiliad Busnes Blynyddol (ABI) - sef arolwg o weithwyr a gynhelir ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r arolwg yn defnyddio tua 78,000 o fusnesau fel enghreifftiau. Cofnoda'r Ymchwiliad ABI swydd yn lleoliad lle gwaith y gweithiwr (yn hytrach nag yn lleoliad prif swyddfa'r busnes).
Llawn amser a rhan amser: Yn yr Ymchwiliad ABI, gweithwyr rhan-amser yw'r rheiny sy'n gweithio 30 awr neu lai yr wythnos.
Yn ymwneud â thwristiaeth - mae hyn yn cynnwys y sectorau canlynol:

551 Gwestai
552 Meysydd gwersylla ac ati
553 Bwytai
554 Barrau
633 Gweithgareddau asiantaethau teithio ac ati
925 Llyfrgell, archifau, amgueddfeydd ac ati
926 Gweithgareddau chwaraeon
927 Gweithgareddau hamdden eraill

Busnesau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW

Mae'r canrannau yn seiliedig ar stoc (ar ddiwedd y flwyddyn).

	Ceredigion (niferoedd)	Ceredigion (%)	Cymru (%)	Prydain (%)
Yn cofrestru	210	5.6	8.7	10.6
Yn dadgofrestru	270	7.3	8.8	9.7
Stoc (ar ddiwedd y flwyddyn)	3,720	-	-	-

Hawlfraint y Goron Ffynhonnell: cofrestru/dadgofrestru TAW yn ôl y diwydiant (2003)

> Cofrestru a dadgofrestru ar gyfer TAW yw'r canllaw swyddogol gorau i batrymau sefydlu busnes newydd a busnes yn dod i ben. Maent yn dangos lefel entrepreneuriaeth ac iechyd y boblogaeth fusnes. O'r herwydd fe'u defnyddir yn eang wrth gynllunio'n economaidd a rhanbarthol.

Ffynhonnell y ffigyrau hyn yw'r Gofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR) sydd â chofnodion o'r holl fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW. Mae'r ystadegau'n cynnwys popeth ym mhob rhan o'r economi oni bai am rai sectorau sydd wedi'u heithrio o TAW a'r busnesau lleiaf o un person sy'n gweithio o dan y trothwy ar gyfer cofrestru TAW (ar ddiwedd y flwyddyn 2002, trothwy'r TAW oedd trosiant blynyddol o 55,000).

ADRODDIAD NEWIDiEM 2000 'DATGANIAD GWELEDIGAETH AR GYFER CEREDIGION' DADANSODDIAD, PROBLEMAU A DATBLYGIAD SWOT A CHYTUNO AR WELEDIGAETH GYFFREDIN

Atodiad 2: DADANSODDIAD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

1.1. Cyflwyniad

Mae'n bwysig o'r dechrau un i lunio darlun clir o amgylchiadau economaidd-gymdeithasol Ceredigion. Mae'r dadansoddiad hwn yn bwysig er mwyn gweld ymhle y mae'r economi nawr, pa rymoedd fu'n sail iddi yn y blynyddoedd diweddar, ac yn bwysicach, i ble mae'r economi'n mynd. Mae'r dadansoddiad meintiol hyn wedyn yn rhoi modd i ni fynd i'r afael â materion mwy ansoddol megis pam fo'r economi yn ei safle bresennol a pha gamau y dylid eu cymryd i wella ei hynt yn y dyfodol.

1.2. Demograffeg

Ac iddi boblogaeth o ychydig dros 70,000, Ceredigion yw un o'r siroedd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Y newid yn y cyfartaledd a ragwelir ar gyfer 1997 i 2007 yw 0.1%, yr un raddfa â'r cyfartaledd yng Nghymru. Canlyniad ymfudo fu'r cynnydd cadarnhaol mewn poblogaeth rhwng 1991 ac 1997. Roedd ymfudo yn cyfrif am 5,000 yn ystod y cyfnod hwn a'r newid naturiol negatif oedd 1,000. Mae effaith y newid hwn yn un hynod bwysig.

Mae gan Geredigion gyfradd llai o bobl sy'n 15 mlwydd oed ac iau, o'i gymharu â'r cyfraddau yng Nghymru ac ardaloedd gwledig eraill Amcan 1. Mae gan y Sir gyfraddau uwch o bobl sydd o fewn oed gweithio sy'n awgrymu cyfradd uwch na'r cyfartaledd o oedolion heb blant. Mae hyn yn bennaf oherwydd y crynhoad o fyfyrwyr sy'n camystumio dosbarthiad y boblogaeth. O ganlyniad, mae'r canran o fewn y band ymddeol yn debyg i gyfartaledd Cymru.

Cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfrifiad 1991 yw 59%. Mae hyn yn cymharu â'r canran cenedlaethol o 19%.

Tabl 1: Newid yn y Boblogaeth 1991 – 2007

	1991	1997	2007	% newid blynyddol ar gyfartaledd	
				1991-97	97-07
Ceredigion	70.2	70.5	71.0	0.1	0.1
Cymru	2887.6	2925.0	2964.9	0.2	0.1

Ffynhonnell: Strategaethau Busnes Cyfyngedig, 1998

Tabl 2: Demograffeg Ceredigion

Cyfran poblogaeth 1997	O dan 5 oed	Rhwng 5 a 15 oed	Rhwng 16 a 59/64 oed	Dros oed ymddeol	Cyfanswm
Ynys Môn	6.0	14.7	57.6	21.7	100.0
Gwynedd	5.8	13.7	58.5	22.0	100.0
Sir Gaerfyrddin	5.5	13.4	58.0	23.1	100.0
Sir Benfro	5.8	14.8	58.4	21.0	100.0
Ceredigion	**4.8**	**12.8**	**60.7**	**21.8**	**100.1**
Cymru	6.0	14.7	57.6	21.7	100.0

Ffynhonnell: Crynhoad o Ystadegau Ardaloedd Lleol Cymru 1999

Tabl 3: Cyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg

Oedran	3-15	16-29	30-44	45-59/65	59/64+	Cyfanswm 3+
Ceredigion	75%	59%	52%	54%	60%	59%
Cymru	24%	16%	15%	17%	22%	19%

Ffynhonnell: Cyfrifiad 1991

1.3. Cyfraddau Gweithgaredd

Mae'r gyfradd gweithgaredd ar gyfer Ceredigion ychydig yn uwch na chyfradd gweithgaredd Cymru. Dros amser mae'r gyfradd gweithgaredd ar gyfer Ceredigion wedi cynyddu'n gyson yn ystod y 1980au a'r 1990au. Roedd y gyfradd gweithgaredd economaidd yn 71.3 yn 1981, yn 73.1 yn 1991 gan gyrraedd 74.2 erbyn 1997.

Roedd Ceredigion yn cymharu'n ffafriol â dim ond dwy ardal wledig arall yn Amcan 1 o ran cyfraddau gweithgaredd economaidd, sef Môn a Gwynedd. Priodolir cyfradd gweithgaredd economaidd Ceredigion i'r gyfradd uchel iawn o weithgaredd menywod, gan fod yn ail i ddim ond Sir Ddinbych yn ardal wledig Amcan 1. Mae cyfradd gweithgaredd y dynion, serch hynny, ymysg yr isaf yn ardaloedd gwledig Amcan 1.

Tabl 4: Cyfraddau gweithgaredd economaidd yn ôl Awdurdod Unedol 1997

	Pawb	Dynion	Menywod
Môn	71.5	77.1	65.2
Sir Gaerfyrddin	76.1	84.2	66.0
Ceredigion	**74.2**	**75.8**	**72.0**
Conwy	74.7	78.0	71.5
Sir Ddinbych	76.7	78.0	75.3
Gwynedd	73.6	75.6	71.2
Sir Benfro	76.6	80.1	72.7
Cymru	74.0	78.8	68.6

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r Llafurlu

Tabl 5: Crynodeb o'r farchnad lafur leol

	Ceredigion
Cyfanswm oed 16 neu hŷn	54,000
Cyfanswm yn economaidd weithgar	31,000
Cyfanswm mewn cyflogaeth	28,000
Yn economaidd segur	23,000

Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu 1997

1.4. Di-waith

Mae'r gyfradd sy'n ddi-waith yng Ngheredigion yn gymharol isel i Gymru ac ardaloedd gwledig eraill Amcan 1, sef yn 4.3% yn Hydref 1998. Mae gan y Sir gyfraddau di-waith tymor-byr uwch a chyfraddau hirdymor isel o'u cymharu â chyfraddau Cymru ac ardaloedd gwledig Amcan 1. Mae mwy na 62% o'r di-waith yng Ngheredigion yn llai na 6 mis, o'i gymharu â'r gyfradd genedlaethol o 58%. Dengys y patrwm di-waith yng Ngheredigion fwy o debygrwydd â phatrwm Cymru nag ardaloedd gwledig eraill Amcan 1 megis Môn a Gwynedd.

Tabl 6: Cyfartaledd y rhai yn hawlio budd-dal diweithdra Tach 1997 – Hydref 1998 a hawlwyr budd-dal diweithdra yn ôl cyfnod Hydref 1998

	Nifer	Canran	<6 mis	6m – 1 fl	1 fl+
Ynys Môn	2343	10.0	44.7	16.0	39.4
Gwynedd	3959	7.2	52.9	14.9	32.2
Powys	1916	3.3	63.6	16.2	20.2
Sir Benfro	3751	8.4	56.9	15.0	28.1
Sir Gaerfyrddin	3685	4.9	60.3	15.8	23.9
Ceredigion	**1413**	**4.3**	**62.2**	**14.6**	**23.2**
Cymru	**70407**	**5.6**	**58.0**	**17.2**	**24.8**

Ffynhonnell: Cyfrif y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra, ONS

Mae dosbarthiad daearyddol y rhai sy'n ddi-waith yng Ngheredigion yn amrywio'n fawr. Mae gan yr Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (ATIG) yn Aberteifi a Llambed/Aberaeron ganran weddol uchel o rai di-waith, ac mae gan ATIG Aberystwyth un o'r canrannau di-waith isaf yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi gostwng fymryn rhwng 1991 a 1997 ond y mae'n dal yn amlwg. Datblygodd Llambed/Aberaeron i fod yn ardal TIG gwaeth na Aberteifi erbyn 1997.

Tabl 7: Diweithdra yn ôl Ardal Teithio i'r Gwaith: Canrannau Sylfaen Manwl 1991 - 1997

	1991		1993		1995		1997	
	Ion	Gorff	Ion	Gorff	Ion	Gorff	Ion	Gorff
Aberystwyth	**6.4**	**7.0**	**7.2**	**9.7**	**8.3**	**9.6**	**7.5**	**8.5**
Aberteifi	**12.4**	**16.3**	**18.1**	**15.1**	**13.2**	**13.0**	**11.2**	**9.0**
Llambed ac Aberaeron	**9.5**	**12.8**	**14.2**	**12.0**	**11.9**	**11.3**	**12.0**	**10.3**
Canolbarth a Gorllewin Cymru	8.3	9.4	12.4	11.1	10.3	9.7	9.7	7.9
Prydain Fawr	7.8	9.5	12.4	11.8	10.1	9.4	7.8	6.4

Ffynhonnell: ONS (NOMIS) ac Uned Gwybodaeth am Gyflogaeth, Caerdydd

Nid yw'r di-waith yng Ngheredigion wedi'u dosbarthu'n gyfartal yn ôl oed. Mae gan y Sir ganran uchel o bobl ifanc di-waith rhwng 16 a 24 oed a chanran is o rai di-waith yn y grŵp oedran 25-34. Mae'r nifer sy'n ddi-waith yn y band 45-54 yn sylweddol uwch na chanrannau Cymru a'r DU.

Tabl 8: Y di-waith yn ôl oed: Cyfrif y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra, Chwef 2000(%)

	16-24	25-34	35-44	45-54	55+
Ceredigion	26.5	24.1	20.1	21.0	8.2
Cymru	28.4	27.4	19.5	17.2	7.5
y DU	25.3	28.4	19.1	17.3	8.2

Ffynhonnell: ONS

1.5. Hunangyflogaeth

Mae 11,000 o bobl yn hunangyflogedig yng Ngheredigion, gan roi canran hunangyflogaeth o 33.5% yn 1998. Mae'r canran hwn ymysg yr uchaf yn genedlaethol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 12.7%. Esbonnir y canran uchel hwn gan y nifer uchel o ffermwyr bychain, tua 2,500 o brif ffermwyr llawn-amser a 1,250 arall o ffermwyr rhan-amser. Mae Ceredigion wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n hunangyflogedig, cynnydd o 34% rhwng 1981 ac 1991 er enghraifft. Gan fod lefelau cyflogaeth ar fferm wedi aros yr un fath neu ostwng fymryn yn ystod y cyfnod hwn, mae'n rhaid bod y codiad yn dwf mewn sectorau nad ydynt yn amaethyddol. Gan fod y rhai sy'n hunangyflogedig yn bennaf mewn amaethyddiaeth a gwasanaethau personol, maent ymysg yr ystod isaf o enillion hunangyflogedig.

Tabl 9a: Cyflogeion a'r hunangyflogedig, 1998

	Cyflogeion	Hunangyflogedig
Ceredigion	66.5	33.5
Cymru	87.3	12.7

Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu (1998)

Tabl 9b: Cyflogeion a'r hunangyflogedig, 1991

	Cyflogeion	Hunangyflogedig
Ceredigion	68.4	31.6
Canolbarth a Gorllewin Cymru	71.3	28.7
Prydain	87.1	12.9

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 1991

1.6. Strwythur Diwydiannol

Mae'r canran o unedau bach iawn (sef rhai a ddosbarthir yn ôl nifer y rhai a gyflogir) yn llawer uwch yng Ngheredigion nag unrhyw ardal wledig Amcan 1 arall. Yn 1998 roedd 87% o unedau yng Ngheredigion yn gyflogwyr 9 o bobl neu lai. Dosbarthwyd y gweddill, 13%, fel unedau yn cyflogi rhwng 10 a 99 o bobl. Nid oedd yr un uned yn cyflogi mwy na 99 o gyflogeion.

Tabl 10: Cyfran o unedau yn ôl nifer a gyflogir, Ebrill 1998

	0-9	10-19	20-49	50-99	100-199	200-499	500-999	1000+
Ynys Môn	77	8	4	4	4	0	0	0
Conwy	77	15	5	3	0	0	0	0
Sir Ddinbych	68	15	8	3	3	3	0	0
Gwynedd	76	11	6	4	2	2	0	0
Sir Benfro	80	11	4	0	2	2	0	0
Sir Gaerfyrddin	72	14	9	3	3	1	0	0
Ceredigion	**87**	**5**	**5**	**3**	**0**	**0**	**0**	**0**
Cymru	**66**	**13**	**10**	**4**	**4**	**2**	**1**	**0**

Ffynhonnell: Swyddfa ar gyfer Ystadegau Cenedlaethol

1.7. Strwythur Cyflogaeth

Dyma'r prif broblemau i Geredigion o ystyried cyflogaeth yn ôl swydd:

- Mae canran Ceredigion o reolwyr a gweinyddwyr dipyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ac ardaloedd gwledig eraill Amcan 1 sy'n ffinio. Mae'r un patrwm i'w weld o ran swyddi proffesiynol, ond ar raddfa lai.

- Ni chynrychiolir hanner digon ar weithwyr peiriannau yng Ngheredigion o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, ac yn yr un modd nid oes digon o gynrychiolaeth o'r gwasanaethau personol a phroffesiynol o'i gymharu ag ardaloedd eraill sy'n ffinio.

- Mae'r ddau ffactor hyn yn rhannol oherwydd nad oes cynrychiolaeth ddigonol o'r sector cynhyrchu yn y sir.

Tabl 11: Cyflogaeth 1991 yn ôl swyddi (yn seiliedig ar sampl 10%)

	Gwynedd	Caerfyrddin	Penfro	**Ceredigion**	**Cymru**
Rheolwyr a Gweinyddwyr	18.3	19.0	20.0	**23.5**	**15.2**
Proffesiynol	8.6	7.3	7.2	**10.4**	**8.1**
Technegol Broffesiynol Gysylltiedig	7.7	7.2	6.6	**7.6**	**7.9**
Clerigol ac Ysg	10.9	11.8	10.6	**10.7**	**13.8**
Crefftau a Chysylltiedig	15.3	14.8	15.8	**14.2**	**14.8**
Gwasanaethau Personol a Phroffesiynol	11.2	9.5	12.4	**8.6**	**9.7**
Gwerthwyr	6.6	6.7	7.1	**6.1**	**7.3**
Gweithwyr peiriannau	8.5	12.0	8.3	**6.3**	**12.3**
Swydd arall	11.4	10.6	10.6	**10.8**	**9.8**
Heb ddweud	1.4	1.2	1.5	**1.8**	**1.1**
Cyfanswm	98.4	98.8	98.5	**98.2**	**98.9**

Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth 1991; NOMIS

1.8. Addysg a Sgiliau

Mae Ceredigion yn perfformio'n dda fel sir o ran llwyddo i gael cymwysterau ar lefel ysgol o'i gymharu â Chymru yn gyffredinol. Er enghraifft, llwyddodd 58% o'r disgyblion perthnasol yng Nghanolbarth Cymru i gael o leiaf 5 TGAU gradd A-C yn 1997 o'i gymharu â dim ond 44% i Gymru yn gyffredinol. Yn yr un modd, enillodd 70% o'r disgyblion perthnasol ddwy neu fwy o Lefelau-A graddau A–C o'i gymharu â 55% yng Nghymru.

Nid yw'r perfformiad addysgol llwyddiannus hwn o reidrwydd yn trawsnewid i brinder sgiliau isel er hynny. Dangosodd Arolwg Cyflogwyr o Sgiliau Dyfodol Cymru fod gan Ogledd Ceredigion broblem fawr â swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi, gyda 34% o gwmnïau yn adrodd am broblemau recriwtio. Gwelwyd bylchau sgiliau uchel yng Ngogledd Ceredigion hefyd, gyda 23% o gyflogwyr yn adrodd am fylchau sgiliau o'i gymharu â 8% yn ne Ceredigion, 16% yng Nghanolbarth Cymru a 18% yng Nghymru.

1.9. Mewnfuddsoddi

Mae Ceredigion wedi perfformio'n wael wrth ddenu a sicrhau ei chyfran o fewnfuddsoddiadau. Er ei bod wedi denu cyfran sylweddol o brosiectau, mae'r Sir ond wedi sicrhau 0.5% o'r gyflogaeth a grëwyd gan safleoedd gweithgynhyrchu dan berchnogaeth tramor yng Nghymru. Dyma'r gyfran isaf ar gyfer holl ardaloedd gwledig Amcan 1 yn 1996. Mae'r gyfran isel o swyddi yn cael eu creu yn awgrymu bod pob prosiect wedi bod ar raddfa fach.

Tabl 12: Cyflogaeth mewn safleoedd gweithgynhyrchu dan feddiant tramor 1996

	Safleoedd	Cyflogeion	Canran cyfanswm safleoedd gweithgynhyrchu dan feddiant tramor yng Nghymru
Ynys Môn	5	750	1.0
Gwynedd	3	700	0.9
Conwy	2	450	0.6
Sir Ddinbych	9	1800	2.4
Sir Benfro	5	1250	1.7
Sir Gaerfyrddin	13	2800	3.7
Ceredigion	**6**	**350**	**0.5**
Cymru	381	75450	100.0

Ffynhonnell: Cofrestr Cyflogaeth Gynhyrchu Cymru

1.10. Amddifadedd

Wrth ystyried nodweddion economaidd-gymdeithasol, cam cyntaf pwysig yw gosod Ceredigion yng nghyd-destun cenedlaethol Cymru. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio'r dangosyddion sy'n deillio o ddata Cyfrifiad 1991. Mae *Mynegai Amgylchiadau Economaidd-gymdeithasol* y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi dadansoddiad ward wrth ward yn seiliedig ar y nifer sy'n ddi-waith, lefel segurdod economaidd, dosbarth cymdeithasol, colled poblogaeth yn y grŵp oedran 20-59, salwch parhaol, gorboblogi, amodau tai a marwolaethau. Yn seiliedig ar yr wyth ffactor hyn, mae Ceredigion yn ei gwneud hi'n dda ar lefelau amddifadedd mewn cyd-destun cenedlaethol, gyda dim ond dwy ward wedi'i gosod ymysg y 100 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r ddwy ward waethaf (Gogledd a Gorllewin Aberystwyth) wedi'u camystumio gan y crynhoad uchel o fyfyrwyr sy'n byw mewn llety wedi'i rannu ag sydd â mwynderau tai sylfaenol. Dim ond dwy ward ledled Ceredigion gyfan (Llandyfrïog a Llangybi) sydd â chyfraddau diweithdra uwch na'r cyfartaledd, ac mae gan ddwy ward (Aberystwyth Gorllewin a Llandyfrïog) gyfraddau sydd dipyn yn uwch na'r cyfartaledd o ran grwpiau economaidd-gymdeithasol isel yn y boblogaeth. Nid yw'r Mynegai yn cyfrif am amddifadedd cuddiedig megis amddifadedd gwledig, a dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r Mynegai hwn.

Tabl 13: Mynegai Amgylchiadau Economaidd-gymdeithasol sy'n ymwneud â wardiau yng Ngheredigion

	Di-waith	Isel mewn poblogaeth economaidd weithgar	Grwpiau economaidd-gymdeithasol isel yn y boblogaeth	Colled poblogaeth yn y grŵp oedran 20-59 mlwydd oed	Nifer sy'n barhaol sâl yn y boblogaeth	Gorboblogi mewn tai	Lefel mwynderau sylfaenol tai	Cyfradd marwolaethau safonol	Safle yng Nghymru	Safle
Gogledd Aberystwyth		**				**	**	**	21	1
Gorllewin Aberystwyth		**				**	**		70	2
Capel Dewi		*	*	*	*	**	**	**	197	3
Llanarth		*	*	*		*	*	*	308	4
Tref Llandysul			*	*		*	*	*	355	5
Llanfihangel Ystrad			*	*		**	*		363	6
Lledrod			*			*	**		367	7
Llandyfriog	*	**	*						376	8
Llangybi	*	*					*	*	400	9
Dwyrain Aberystwyth									421	10

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gymreig

* Yn dynodi fod y meini prawf yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

** Yn dynodi fod y meini prawf yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

1.11. Lefelau Cyflog ac Incwm ar gyfartaledd

Mae enillion bob yr awr yn sylweddol lai yng Ngheredigion na'r cyfartaledd yng Nghymru, ar gyfer dynion a menywod. Mae ffigyrau dynion llawn-amser yn cymharu'n ffafriol ag ardaloedd gwledig eraill Amcan 1, ond mae enillion menywod llawn-amser, sef £5.57, ymysg y gwaethaf. Wrth asesu incymau cartrefi, mae gan 29% o gartrefi yng Ngheredigion incwm o lai na £10,000. Mae hyn yn gyfran is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Tabl 14: Amcangyfrifon enillion yr awr 1996 (£)

	Dynion llawn-amser	Menywod llawn-amser
Môn	7.22	6.22
Sir Gaerfyrddin	7.76	5.63
Ceredigion	**7.71**	**5.57**
Gwynedd	7.37	6.5
Sir Benfro	7.32	5.47
Cymru	8.13	6.59

Ffynhonnell: Prifysgol Cymru, Abertawe

Tabl 15: Incwm Cartrefi sy'n llai £10,000

	% o gartrefi sydd ag incymau sy'n llai na £10,000 1997
Sir Gaerfyrddin	40
Gwynedd	40
Môn	33
Ceredigion	**29**
Sir Benfro	29
Cymru	34

Ffynhonnell: Arolwg Cyfweliad Cartrefi Cymru 1997 ac ystadegau Tai Cymru, 1998

Dyma'r prif resymau y gellir eu defnyddio i esbonio cyflogau isel Ceredigion:

- Mae gwaith amaethyddol yn bwysig yng Ngheredigion ac mae cyflogaeth amaethyddol yn gyffredinol yn isel.

- Mae twristiaeth yn sector bwysig yn y Sir; unwaith eto dyma sector sydd â chyflogau isel a lle mae gweithio'n rhan-amser yn gyffredin, yn enwedig ymysg menywod.

- Mae cyfleoedd cyflogaeth eraill yn brin ac yn ddaearyddol bell. Gellir disgrifio'r farchnad lafur yn farchnad gaeedig sydd â symudedd isel, ac o'r herwydd mae llai o newid i rymoedd y farchnad orfodi cyfraddau cyflogau cystadleuol.

1.12. Bwlch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP)

Y mesur a ddefnyddir amlaf i fesur ffyniant economaidd yw'r GDP. Fe'i diffinnir fel cyfanswm yr holl nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir gan economi dros gyfnod o amser penodol. Yn ôl amcangyfrifon roedd y GDP y pen yng Ngheredigion yn ddim ond 77.3% o lefel y DU. Er bod y ffigwr hwn yn llawer is na ffigwr Cymru o 81%, mae'n uwch na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Tabl 16: Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn ôl Awdurdod Unedol yng Nghymru a'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru a'r UE

Ardal	Amcangyfrif GDP Y cyfartaledd UE 15 = 100
Môn	73.0
Gwynedd	74.2
Conwy	79.1
Sir Ddinbych	81.8
Sir y Fflint	101.5
Wrecsam	84.5
Powys	78.5
Ceredigion	**77.3**
Sir Benfro	63.4
Sir Gaerfyrddin	64.3
Abertawe	78.5
Nedd Port Talbot	76.3
Morgannwg	104.4
Caerdydd	110.9
Pen-y-bont ar Ogwr	66.2
Rhondda Cynon Taf	64.5
Merthyr Tudful	58.4
Caerffili	72.2
Blaenau Gwent	75.4
Torfaen	86.8
Sir Fynwy	87.5
Casnewydd	86.0
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	**72.76**
Cymru	**81.0**
UE 15	**100**

Y mesurydd a ddefnyddir amlaf i ddangos perfformiad economaidd perthynol yn rhanbarthol neu leol yw'r gwir Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen. GDP blynyddol yw hwn wedi'i rannu gan fynegai o'r pris cyfartaledd am nwyddau a gwasanaethau a brynwyd (i'w addasu ar gyfer chwyddiant – ac felly'r defnydd o'r term 'gwir') a chan gyfanswm poblogaeth y Sir (ac felly'r defnydd o 'y pen'.) Mae twf economaidd yn ymwneud â thwf y gwir GDP y pen.

I ddeall beth sydd wedi digwydd yn yr ugain mlynedd diwethaf, mae'n ddefnyddiol cyfleu'r GDP fel cynnyrch pedwar ffactor berthnasol:

- Cynhyrchiant llafur, neu'r gyfradd rhwng y gwir GDP a chyfanswm cyflogaeth (y cynnyrch ar gyfartaledd am bob person a gyflogir).

- Y gyfradd gyflogaeth, neu'r canran o'r llafurlu sydd wir wedi'u cyflogi. Mae'r gymhareb yn cyfateb yn union i'r canran sy'n ddi-waith (h.y. y canran sydd eisiau swydd, ond nad oes ganddynt un). Er enghraifft os yw'r gyfradd cyflogaeth yn 91%, y gyfradd ddi-waith yw 9%.

- Y gyfradd gweithgaredd economaidd, neu ganran o gyfanswm y boblogaeth sydd yn 16-59/64 oed yn y Llafurlu (h.y. swm y rhai cyflogedig, di-waith a'r rhai ar gynlluniau hyfforddiant).

- Y gymhareb oedran gweithio, neu ganran o gyfanswm y boblogaeth sydd yn 15-59/64 oed.

Gellir gweld y gwahaniaeth yn y cyfraddau GDP y pen ar gyfer Ceredigion a'r DU yn gyffredinol yn sgil cyfuniad o ffactorau gwahanol. Gellir cyfleu GDP y pen drwy'r hafaliad canlynol:

GDP y pen = cyfradd gyflogaeth x cyfradd gweithgaredd economaidd x cyfradd cynhyrchiant x cymhareb oedran gweithio

Fel y gwelir o Dabl 17 mae Ceredigion yn tanberfformio mewn perthynas ag economi'r DU ym mhob un o'r pedwar mesur oni bai am y gyfradd gyflogaeth.

Tabl 17: Elfennau GDP y pen, Ceredigion a'r DU 1997

	Cyfradd gyflogaeth	Cyfradd gweithgaredd economaidd	Cyfradd oedran gweithio	Cyfradd cynhyrchiant	GDP y pen
Ceredigion	95.8	76.6	60.7	£16,603	£7,396
Y DU	93.75	77.7	61.4	£20,0033.9	£8,960

Er mwyn asesu cyfraniad pob un o'r pedwar ffactor cydrannol i'r bwlch GDP gallwn wneud pob cymhareb yn ei thro yn gyfartal â chyfartaledd y DU ar yr un pryd â chadw'r holl ffactorau eraill yn ddigyfnewid, ac yna cyfrifo'r effaith ar GDP y pen. Dengys Tabl 18 ganlyniadau pob un o'r pedwar ffactor:

Tabl 18: Ffactorau sy'n rheoli'r GDP yng Ngheredigion, 1997

	GDP y pen	% ar gyfartaledd yn y DU	% lleihad yn y bwlch GDP
Pob ffactor Yn ddigyfnewid	£7,396	82.5	/
Cyfradd gyflogaeth wedi'i chyfartalu	£7,237	80.8	82.5
Cyfradd gweithgaredd economaidd wedi'i chyfartalu	£7,502	83.7	80.8
Cymhareb oedran gweithio wedi'i chyfartalu	£7,481	83.5	83.5
Cyfradd cynhyrchiant wedi'i chyfartalu	£8,924	99.6	96.6

Ffynhonnell: yn tarddu o Dabl 17

Mae'n amlwg o'r uchod mai'r ffactor unigol pennaf i ostwng GDP y pen yng Ngheredigion yw cynhyrchiant is na'r cyfartaledd gan y rhai sydd mewn cyflogaeth. Er hynny, mae'r cyfraddau gweithgaredd economaidd is yn ogystal â strwythur hŷn oedran y boblogaeth hefyd yn ffactorau perthnasol.

Mae'r rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd mewn GDP sy'n seiliedig ar weithgaredd yn isel yng Ngheredigion. Mae cyfraddau gweithgaredd economaidd yn cynyddu ar y dechrau gydag oedran ac yna'n gostwng (perthynas siâp-U gwrthdro). Gan fod cyfradd y genedigaethau yn awr wedi'u sefydlogi, mae manteision y gymhareb oedran-gweithio sy'n tyfu wedi mynd. Dylai'r gyfradd gweithgaredd economaidd menywod barhau i dyfu, ond yn arafach, wrth iddi uno a dod i gydbwysedd. Felly drwyddi draw disgwyliem y bydd cyfraddau gweithgaredd yn dirywio dros y ddegawd nesaf wrth i bwysau demograffeg poblogaeth hŷn segur ddechrau cynyddu.

Mae cyfraddau cynhyrchiant ledled y byd wedi arafu er 1973 yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys twf mewn sgiliau nad ydynt yn cyfateb, dirywiad mewn undeboli, costau amgylcheddol, a diwedd ton hir y chwyldro electroneg. Priodolwyd cynnydd diweddar mewn cynhyrchiant i fwyfwy o fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth ac awgryma tystiolaeth fod cydberthynas gref rhwng cynhyrchiant a buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu isadeiledd a chyfalaf dynol.

1.13. Sectorau Economaidd

Mae amaethyddiaeth yn cyfrif am bron i hanner y mentrau TAW seiliedig yng Ngheredigion, ac yna cyfanwerthu a manwerthu yn 17.5% yn 1999. Mae'r gyfran am amaethyddiaeth yn ddwbl yr un ledled Cymru. Mae gwestai a bwytai ond yn cyfrif am 6.4% o'r mentrau TAW seiliedig, cyfran is na'r disgwyliedig oherwydd y gyfran uchel o fusnesau nad ydynt wedi'u cofrestru'n TAW yn y Sir.

Wrth asesu'r math o fentrau TAW seiliedig yng Ngheredigion rhwng 1997 a 1999 a'r newidiadau iddynt, daw'r materion canlynol i'r golwg:

- Mae Ceredigion wedi gweld gostyngiadau yn y nifer o fentrau amaethyddiaeth a gwestai a bwytai, gyda gostyngiadau bychain mewn adeiladu, a mentrau cyfanwerthu a manwerthu sy'n TAW seiliedig. Mae'r nifer o fentrau TAW seiliedig o fewn trafnidiaeth a chyfathrebu, cynhyrchu a gwasanaethau eraill oll wedi gweld cynnydd.

- Ar y cyfan mae'r tueddiadau hyn wedi bod yn gyson â thueddiadau cenedlaethol. Eithriadau yw'r mentrau sy'n seiliedig ar gynnyrch, sydd wedi cynyddu yn groes i'r tueddiadau cenedlaethol. Mae mentrau cyfanwerthu a manwerthu wedi gweld gostyngiad llawer llai na'r lefelau cenedlaethol. Mae nifer y mentrau gwestai a bwytai wedi crebachu yn llawer llai na'r lefel genedlaethol. Mae cynnydd bychan yn y sector trafnidiaeth a chyfathrebu hefyd wedi mynd yn groes i'r tueddiadau drwy Gymru.

Tabl 19: Mentrau TAW seiliedig 1997 yn ôl diwydiant

	Ceredigion		**Cymru**	
	Cyfanswm	**%**	**Cyfanswm**	**%**
Amaethyddiaeth	1,775	48.0	17,780	23.6
Cynhyrchu	175	4.7	5885	7.8
Adeiladu	330	8.9	7805	11.5
Cyfanwerthu a manwerthu	660	17.9	18,165	24.1
Gwestai a bwytai	280	7.6	6475	8.6
Trafnidiaeth a chyfathrebu	70	1.9	3275	4.3
Gwasanaethau eraill	410	11.1	15140	20.1
Gwirio	5	100.1	0	100.0

Ffynhonnell: NOMIS

Tabl 20: Mentrau TAW seiliedig 1999 yn ôl diwydiant

	Ceredigion		Cymru	
	Cyfanswm	**%**	**Cyfanswm**	**%**
Amaethyddiaeth	1,680	47.5	16,825	23.3
Cynhyrchu	175	4.9	5,600	7.8
Adeiladu	305	8.6	8,000	11.1
Cyfanwerthu a manwerthu	620	17.5	16,990	19.4
Gwestai a bwytai	225	6.4	6,320	8.7
Trafnidiaeth a chyfathrebu	75	2.1	2,946	4.1
Gwasanaethau eraill	425	12.0	15,315	21.2
Gwirio	35	100.0	244	100.0

Ffynhonnell: NOMIS

Mae cyniferydd lleoliad yn fesur i gymharu arbenigaeth sector rhwng ardal leol a rhanbarth fwy (fe'i cyfrifir drwy fesur cyfanswm lefel canran cyflogaeth leol mewn sector, wedi'i rannu â'r un gymhareb i Gymru). Mae cyniferydd lleoliad o 1 neu uwch yn datgelu sector arbenigaeth yn y Sir a chyniferydd lleoliad o dan 1 yn dangos sector heb arbenigaeth yn y Sir. Mae cyfrif y cyniferydd lleoliad ar gyfer mentrau TAW seiliedig yng Ngheredigion a Chymru yn datgelu'r sefyllfa ganlynol.

Daw amaethyddiaeth i'r fei fel y cyniferydd lleoliad mwyaf yng Ngheredigion. Dengys y ffaith fod y ffigwr hwn o 2.03 wedi aros yn ddigyfnewid rhwng 1997 a 1999 bod pwysigrwydd mentrau amaethyddiaeth TAW seiliedig wedi parhau yn ddigyfnewid dros amser o ran Cymru. Mae gan yr holl sectorau eraill gyniferyddion lleoliad sy'n is na 1, ac eto mae'n edrych fel petai cyfanwerthu a manwerthu a thrafnidiaeth a chyfathrebu yn sectorau sy'n cynyddu, ond eu bod yn rhai ag arbenigaeth isel. Yr unig sector sydd wedi dangos arwyddion gostyngiadau mewn cyswllt â mentrau TAW seiliedig yw'r sector gwestai a bwytai.

Tabl 21: Cyniferydd Lleoliad Mentrau TAW seiliedig yng Ngheredigion o ran Cymru

Sector	**1997**	**1999**	**Dosbarthiad Lleoliad**
Amaethyddiaeth	2.03	2.03	Arbenigaeth uchel
Cynhyrchu	0.60	0.63	Arbenigaeth isel
Adeiladu	0.77	0.77	Arbenigaeth isel
Cyfanwerthu a manwerthu	0.73	0.90	Arbenigaeth isel yn cynyddu
Gwestai a bwytai	0.88	0.74	Arbenigaeth isel yn gostwng
Trafnidiaeth a chyfathrebu	0.44	0.51	Arbenigaeth isel yn cynyddu
Gwasanaethau eraill	0.55	0.57	Arbenigaeth isel yn cynyddu

Ymddengys Ceredigion yn sir sy'n weddol sefydlog o ran cofrestru a dadgofrestru stoc. Fel canran o'r cyfanswm stoc yn 1997, mae cofrestriadau newydd yn cyfrif am 5.4% a dadgofrestru yn cyfrif am 5.6%. Mae hyn yn cymharu i ganran o 8.3% ar gyfer cofrestru a dadgofrestru yn genedlaethol.

Tabl 22: Perfformiad cwmni ar gyfer mentrau TAW seiliedig

	Stoc	Cofrestriadau	Dadgofrestriadau	Cofrestriadau fel % o'r stoc	Dadgofrestriadau fel % o'r stoc
Môn	2,115	135	140	6.4%	6.6%
Sir Gaerfyrddin	6,690	400	405	6.0%	6.1%
Ceredigion	**3,695**	**200**	**210**	**5.4%**	**5.6%**
Conwy	3,315	220	275	6.6%	8.3%
Sir Ddinbych	2,890	245	285	8.5%	9.9%
Gwynedd	4,540	255	325	5.0%	7.2%
Sir Benfro	4,745	330	340	7.0%	7.2%
Cymru	75,415	6,240	6,320	8.3%	8.3%

Ffynhonnell: NOMIS

1.14. Cyflogaeth yn ôl diwydiant

Mae gan Geredigion gyfran uwch o bobl yn gweithio yn niwydiannau sylfaenol amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y sector sylfaenol hwn, ffermio yw'r sector pwysicaf o ran cyflogaeth a'r cyfraniad i'r economi leol. Mae cyflogaeth mewn amaethyddiaeth ddwywaith y cyfartaledd yng Nghymru a phedair gwaith cyfartaledd ledled Prydain Fawr.

Mae'r economi leol yn fwy dibynnol ar y diwydiannau gwasanaeth nag ydyw yn genedlaethol, ac mae gan dwristiaeth a sefydliadau addysg uwch rôl bwysig iawn. Mae 35% o gyflogaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus megis iechyd, addysg a gweinyddu. Y prif gyflogwyr yw'r ddwy brifysgol, Aberystwyth a Llambed, y Llyfrgell Genedlaethol Cymru, DERA Aberporth, IGER, Ysbyty Bronglais a Chyngor Sir Ceredigion. Roedd cyflogaeth yng Ngheredigion yn 1997 wedi'i ganoli mewn gwasanaethau eraill (rhai cyhoeddus megis addysg ac iechyd yn bennaf) ac yna dosbarthu, gwestai ac arlwyo. Roedd y ddau sector hyn yn cyfrif am 65% o'r gwaith yng Ngheredigion yn 1997, o'i gymharu â 57% ledled Cymru.

Mae pwysigrwydd diwydiannau cynhyrchu yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, a phrin y mae'r sector nwyddau metal a pheirianneg yn cyfrannu i waith yn lleol.

Rhagfynegir y bydd y cynnydd mwyaf hyd at 2007 yng Ngheredigion mewn dau sector: sector dosbarthu, gwestai ac arlwyo ar gyfradd o 2.2% a pheirianneg ar gyfradd o 1.1%. Rhagfynegir mai'r gostyngiadau mwyaf mewn gwaith rhwng 1997 ac 2007 fydd yn y sector metalau, mwynau a chemegau ac yna'r sector mwyngloddio a chyfleustodau. Adlewyrcha'r rhagfynegiadau hyn mewn gostyngiadau gwaith y rhagfynegiadau cenedlaethol. Er hynny, mae'r rhagfynegiadau yn y sectorau sydd â thwf cyflogaeth yn gwahaniaethu fymryn o'r raddfa genedlaethol, gan fod gwasanaethau ariannol a busnes yn tyfu 1.6% o'i gymharu â 0.0% y flwyddyn a'r sector dosbarthu, gwestai ac arlwyo yn tyfu ar gyflymder arafach o 1.4% o'i gymharu â chyfradd Ceredigion o 2.2% y flwyddyn. Bydd twf cyflogaeth mewn peirianneg, adeiladu a gwasanaethau eraill yn debygol o fod yn arafach yng Ngheredigion rhwng 1997 a 2007 o'i gymharu â 1991-7.

Tabl 23: Lefelau Cyflogaeth yng Ngheredigion '000

Sector	1991	1997	2007	Newid blynyddol ar gyfartaledd	
				1991-7	97-07
Amaethyddiaeth	1.6	1.5	1.1	-3.5%	-2.8%
Mwyngloddio a Chyfleustodau	0.3	0.2	0.1	-6.0%	-5.4%
Metelau, Mwynau a Chemegau	0.1	0.1	0.1	-1.9%	-7.5%
Peirianneg	0.0	0.1	0.1	70.6%	**1.1%**
Cynhyrchu arall	1.3	1.6	1.6	4.3%	-0.4%
Adeiladu	0.6	0.9	1.0	8.0%	1.0%
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	4.9	5.0	6.2	0.2%	**2.2%**
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	0.7	0.6	0.6	-1.7%	-0.3%
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	2.6	1.9	1.9	-4.8%	0.0%
Gwasanaethau Eraill (Cyhoeddus yn bennaf)	7.3	8.1	9.0	1.7%	1.0%
Cyfanswm Cyflogeion	19.6	20.1	21.6	0.4%	0.8%

Ffynhonnell: Strategaethau Busnes Cyfyngedig, 1998

Tabl 24: Cyfan Gyflogaeth (%) yng Ngheredigion 1991 - 2007

Sector	1991	1997	2007
Amaethyddiaeth	8.2%	7.5%	5.1%
Mwyngloddio a Chyfleustodau	1.5%	1.0%	0.5%
Metelau, Mwynau a Chemegau	0.5%	0.5%	0.5%
Peirianneg	0.0%	0.5%	0.5%
Cynhyrchu arall	6.6%	8.0%	7.4%
Adeiladu	3.0%	4.5%	4.6%
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	25.0%	24.9%	28.7%
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	3.6%	3.0%	2.8%
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	13.3%	9.5%	8.8%
Gwasanaethau eraill (Cyhoeddus yn bennaf)	37.2%	40.3%	41.7%
Cyfanswm Cyflogeion	100.0%	100.0%	100.0%

Ffynhonnell: Strategaethau Busnes Cyfyngedig, 1998

Tabl 25: Lefelau Cyflogaeth yng Nghymru '000

Sector	1991	1997	2007	Newid blynyddol ar gyfartaledd	
				1991-7	97-07
Amaethyddiaeth	20.0	18.1	13.8	-1.6	-2.6
Mwyngloddio a Chyfleustodau	17.0	8.9	4.4	-10.2	-6.8
Metelau, Mwynau a Chemegau	66.0	57.3	38.0	-2.3	-4.0
Peirianneg	63.2	71.7	73.5	2.1	0.2
Cynhyrchu arall	75.9	82.8	86.9	1.5	0.5
Adeiladu	44.1	40.4	36.9	-1.4	-0.9
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	201.9	204.9	234.6	0.2	1.4
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	48.5	43.4	39.2	-1.9	-1.0
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	97.8	97.1	113.4	-0.1	1.6
Gwasanaethau eraill (Cyhoeddus yn bennaf)	323.0	346.3	388.4	1.2	1.2
Cyfanswm Cyflogeion	957.4	972.0	1028.3	0.2	0.6

Ffynhonnell: Strategaethau Busnes Cyfyngedig, 1998

Tabl 26: Rhan (%) cyflogaeth yng Nghymru 1991-2007

Sector	1991	1997	2007
Amaethyddiaeth	2.1%	1.9%	1.3%
Mwyngloddio a Chyfleustodau	1.8%	0.9%	0.4%
Metelau, Mwynau a Chemegau	6.9%	5.9%	3.7%
Peirianneg	6.6%	7.4%	7.1%
Cynhyrchu arall	7.9%	8.5%	8.5%
Adeiladu	4.6%	4.2%	3.6%
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	21.1%	21.1%	22.8%
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	5.1%	4.5%	3.8%
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	10.2%	10.0%	11.0%

Gwasanaethau eraill (Cyhoeddus yn bennaf)	33.7%	35.6%	37.8%
Cyfanswm Cyflogeion	100.0%	100.0%	100.0%

Ffynhonnell: Strategaethau Busnes Cyfyngedig, 1998

Mae cyfrif y cyniferydd lleoliad ar gyfer cyflogaeth yn ôl diwydiant yn datgelu patrwm diddorol.

- Mae gan Geredigion bum sector arbenigaeth a phum sector heb arbenigaeth wrth gymhwyso'r cyniferydd lleoliad i'r sectorau cyflogaeth

- Rhagfynegir mai dim ond un sector (gwasanaethau ariannol a busnes) fydd yn gostwng mewn arbenigaeth, gan felly fod yn fygythiad i Geredigion.

- Mae sectorau o arbenigaeth isel sy'n cynyddu yn dynodi sector cyfleoedd. Y rhain yw metalau, mwynau a chemegau, peirianneg, a thrafnidiaeth a chyfathrebu.

- Mae amaethyddiaeth a gwasanaethau eraill i'w gweld yn sectorau o arbenigaeth uchel ddigyfnewid nad ydynt yn dangos arwyddion o ostwng fel sectorau cyflogaeth.

Tabl 27: Cyniferydd Lleoliad Cyflogaeth Ceredigion mewn perthynas â Chymru

Sector	1991	1997	2007	% newid	Dosbarthiad y sector
Amaethyddiaeth	3.90	3.95	3.92	+ 0.5+	Arbenigaeth uchel
Mwyngloddio a Chyfleustodau	0.83	1.11	1.25	+33.6+	Arbenigaeth uchel yn cynyddu
Metelau, Mwynau a Chemegau	0.07	0.08	0.14	+50%	Arbenigaeth isel yn cynyddu
Peirianneg	0.0	0.07	0.07	+100%	Arbenigaeth isel yn cynyddu
Cynhyrchu arall	0.84	0.94	0.87	+3.4%	Arbenigaeth isel
Adeiladu	0.65	1.07	1.28	+49.2%	Arbenigaeth uchel yn cynyddu
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	1.18	1.18	1.26	+6.3%	Arbenigaeth uchel yn cynyddu
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	0.71	0.67	0.74	+4.0%	Arbenigaeth isel yn cynyddu
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	1.30	0.95	0.80	-62.5%	Arbenigaeth isel yn gostwng
Gwasanaethau eraill (cyhoeddus yn bennaf)	1.10	1.13	1.10	0.0%	Arbenigaeth uchel ddigyfnewid

1.15. Cynhyrchiant yn ôl Diwydiant

Nid ystyrir Ceredigion yn ardal uchel ei pherfformiad. Mae goruchafiaeth busnesau bychain a'r sector gwasanaethau wedi arwain at lefel cynhyrchiant cyffredinol yng Ngheredigion sydd 2.6% yn is na Chanolbarth Cymru a 14.7% yn is na Chymru gyfan.

Y sectorau a berfformiodd yn wael yn 1997 yw dosbarthu, gwestai ac arlwyo, peirianneg ac amaethyddiaeth. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys ffigyrau hunangyflogaeth, a phe ystyrid hwy byddai'r cyfraddau cynhyrchiant yn llawer is, yn enwedig ar gyfer amaethyddiaeth a gwestai ac arlwyo.

Dengys ffigyrau cynhyrchiant fod tri sector wedi perfformio'n well o'i gymharu â Chanolbarth Cymru a Chymru ill dau: gwasanaethau ariannol a busnes; trafnidiaeth a chyfathrebu a gwasanaethau eraill (cyhoeddus yn bennaf).

Wrth gymharu â Chanolbarth Cymru a Chymru, y sectorau a berfformiodd yn wael o ran cynhyrchiant yw: Peirianneg; Amaethyddiaeth a Mwyngloddio a Chyfleustodau.

Tabl 28: Cynhyrchiant yng Ngheredigion, Canolbarth Cymru a Chymru, 1997 (£)

Sector	Ceredigion	Canolbarth Cymru	Ceredigion – Canolbarth Cymru %	Ceredigion	Cymru	Ceredigion – Cymru % Gwahaniaeth	*Canolbarth Cymru – Cymru % Gwahaniaeth*
Amaethyddiaeth	18,000	21,860.0	-17.7	18,000	20,663.0	-12.9	*5.8*
Mwyngloddio a Chyfleustodau	81,500	87,166.7	- 6.5	81,500	91,786.5	-11.2	*-5.0*
Metelau, Mwynau a Chemegau	50,000	42,428.6	17.8	50,000	50,698.1	-1.4	*-16.3*
Peirianneg	13,000	25,025.0	- 48.1	13,000	27,488.1	-52.7	*-9.0*
Cynhyrchu arall	21,500	21,482.1	0.1	21,500	22,698.1	-5.3	*-5.4*
Adeiladu	41,000	42,625.0	- 3.8	41,000	37,576.7	9.1	*13.4*
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	13,320	14,354.0	- 7.2	13,320	13,352.9	-0.2	*7.5*
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	41,500	38,520.0	7.7	41,500	37,536.9	10.6	*2.6*
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	31,420	29,580.0	6.2	31,420	27,287.3	15.1	*8.4*
Gwasanaethau eraill (cyhoeddus yn bennaf)	16,272	15,885.0	2.4	16,272	15,273.5	6.5	*4.0*
Cyfartaledd Cynhyrchiant (yn seiliedig ar GDP ar ôl addasiadau)	16,603	17,050.0	- 2.6	16,603	19,461.4	-14.7	*-12.4*

Ffynhonnell: yn tarddu o ddata a gyflenwyd gan Strategaethau Busnes Cyfyngedig

Mae cyfrifiadau ar dwf cynhyrchiant a ragfynegir ar gyfer Ceredigion yn amlygu'r tueddiadau canlynol:

- Metelau, mwynau a chemegau yw'r unig sector y rhagfynegir fydd yn wynebu dirywiad cynhyrchiant (28% rhwng 1997 a 2007), o'i gymharu â thwf cynhyrchiant o 41.5% ledled Cymru.

- Mae'n debyg y ceir y twf cynhyrchiant isaf o fewn dosbarthu, gwestai ac arlwyo, cynhyrchu a gwasanaethau eraill.

- Rhagfynegir y bydd y gwahaniaeth cynhyrchiant mwyaf yn digwydd yn 58% yn y sector mwyngloddio a chyfleustodau, canran uwch na'r canran cenedlaethol o 52.9%. Dilynir hyn gan wahaniaeth cynhyrchiant o 43% yn y sector peirianneg yng Ngheredigion o'i gymharu â 35.1% ar raddfa genedlaethol.

Tabl 29: Twf cynhyrchiant a ragfynegir, Ceredigion a Chymru, 1997 - 2007 (£)

	Ceredigion			Cymru		
Sector	Cynhyrchiant 1997	Cynhyrchiant 2007	Gwahaniaeth cynhyrchiant 97-07(%)	Cynhyrchiant 1997	Cynhyrchiant 2007	Gwahaniaeth Cynhyrchiant 97-07
Amaethyddiaeth	18,000	27,000	33%	20,663.0	30,637.7	32.6%
Mwyngloddio a Chyfleustodau	81,500	192,000	58%	91,786.5	194,681.8	52.9%
Metalau, mwynau a Chemegau	50,000	39,000	**-28%**	50,698.1	86,734.2	**41.5%**
Peirianneg	13,000	23,000	43%	27,488.1	42,359.2	35.1%
Cynhyrchu arall	21,500	22,900	6%	22,698.1	25,420.0	10.7%
Adeiladu	41,000	51,800	21%	37,576.7	48,228.2	22.1%
Dosbarthu, gwestai ac arlwyo	13,320	12,900	**3%**	13,352.9	14,710.6	**9.2%**
Trafnidiaeth a Chyfathrebu	41,500	54,800	24%	37,536.9	51,818.8	27.6%
Gwasanaethau Ariannol a Busnes	31,420	37,500	**16%**	27,287.3	31,035.3	**12.1%**
Gwasanaethau eraill (Cyhoeddus yn bennaf)	16,272	17,900	**9%**	15,273.5	16,562.0	**7.8%**
Cyfartaledd Cynhyrchiant (yn	16,603	19,100	13%	19,461.4	23,021.5	15.5%

seiliedig ar GDP ar ôl addasiadau)						

Ffynhonnell: yn tarddu o ddata a gyflenwyd gan Strategaethau Busnes Cyfyngedig, 1998

Atodiad 3: **YMGYNGHORIADAU LLEOL**

Cynhaliodd Fforwm Amcan 1 ymgynghoriadau lleol, gan hefyd groesawu ymatebion ysgrifenedig i flaenoriaethau a datblygiadau yn y Sir. Mae dadansoddiad o'r ymatebion ysgrifenedig, 90 ohonynt i gyd, yn nodi anghenion a blaenoriaethau ymysg y gymuned leol o ran ariannu a gwariant Amcan 1. Mae'r ymatebion yn amrywio o ran ehangder y pryderon a'r problemau, a'r awgrymiadau am brosiectau. Er bod y rhan fwyaf o ymatebion yn rhagweld Amcan 1 yn wir gyfle i Geredigion oresgyn nifer o broblemau, lleisiodd rhai bryderon ynghylch y byddai sicrhau'r targed gwaelodol o gynyddu GDP yn digwydd ar draul cryfderau Ceredigion, megis yr amgylchedd naturiol a'r cymunedau gwledig.

Mae dadansoddiad o'r ymgynghoriadau lleol ysgrifenedig yn datgelu chwe sector neu thema bwysig y mae grwpiau neu unigolion wedi cynnig sylwadau arnynt. Mae'r canrannau mewn cromfachau yn dynodi cyfran yr ymatebion a dynnodd sylw at y themâu hyn. Y rhain yw:

1. Twristiaeth wledig/werdd a diwylliannol (40%)

- Datblygu twristiaeth o safon uchel gan ddefnyddio adnoddau naturiol cefn gwlad megis gwyliau cerdded a beicio
- Datblygu a hybu twristiaeth ddiwylliannol yng Ngheredigion
- Nododd 14% o'r ymatebwyr yr angen i ddatblygu Canolfannau Croeso yng nghanol pob tref
- Datblygu aber yr afon Teifi
- Gwella cyfleusterau hamdden ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr
- Gwella hawliau tramwy cyhoeddus
- Rheolaeth gynaliadwy ar yr arfordir a chefn gwlad

2. Cryfhau cymunedau gwledig (38%)

- Cynhwysiant cymdeithasol o rai grwpiau penodol (pobl ifanc, menywod, rhai dan anfantais, yr henoed, yr anabl)
- Canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc – awgrymiadau ar gyfer canolfannau galw-draw (8%)
- Syniadau ar gyfer prosiectau cymunedol (17%) e.e. canolfannau adnoddau-cymunedol, darpariaeth hyfforddiant leol, canolfannau cyngor aml-asiantaeth
- Datblygiadau yn gysylltiedig ag iechyd gan gynnwys gofal plant, gofal iechyd a chadw'n heini
- Gwella gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig (siopau, swyddfeydd y post, garejis ac ati)
- Adeiladu ar yr economi gymdeithasol a chryfderau'r sector gwirfoddoli

3. Gwelliannau i isadeiledd (26%)

- Gwelliannau ffyrdd yng Ngheredigion ei hun a ffyrdd sy'n dod i mewn i'r sir

- Gwella'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus (rheilffordd a bysys) yn enwedig i bentrefi gwledig
- Archwilio posibiliadau datblygu maes awyr yn Aberporth
- Isadeiledd busnes megis darparu adeiladau/safleoedd priodol
- Tai addas o ansawdd da

4. Addysg a Dysgu (24%)

- Hyfforddi'r gweithlu mewn sgiliau newydd (21%)
- Cynyddu y ddarpariaeth a chyfleusterau hyfforddiant (22%)
- Gwella sgiliau busnes
- Gwella mynediad at gyfleoedd dysgu ar gyfer grwpiau wedi'u heithrio

5. Datblygiadau TGCh yn gyffredinol (24%)

- Datblygu isadeiledd TGCh a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â mynediad i TGCh
- Datblygu canolfannau TG ble bynnag fo'n gyfleus
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â hyfforddiant i bob grŵp mewn cymunedau

6. Darparu prosiectau cyflogi da (22%)

- Gwella mynediad i well gyfleoedd cyflogaeth
- Datblygu'r diwydiant E-Fasnach a'r Rhyngrwyd i ddarparu swyddi â sgiliau uchel
- Mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol megis menywod a phobl ifanc

Yn ogystal â'r chwe phrif thema hyn, mae'n werth sylwi ar y sylw a roddir i gyfleoedd penodol mewn rhai sectorau. Mae twristiaeth wedi'i gynnwys fel prif gategori uchod, ond y sectorau eraill sydd wedi bod yn flaenllaw yn yr ymgynghoriadau yw:

- Addysg a diwydiannau yn seiliedig ar wybodaeth
- Amaethyddiaeth
- Coedwigaeth a Choetiroedd
- Adnoddau ac ynni adnewyddadwy
- Sectorau yn seiliedig ar ddiwylliant a'r cyfryngau

Sylw pwysig i'w gadw mewn cof wrth ddadansoddi'r ymatebion yw'r diffyg ymateb gan y sector preifat, sydd wedi'i adlewyrchu yn y diffyg sylw a roddir i faterion isadeiledd busnes a chefnogaeth busnes yn gyffredinol. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion o fentrau gwirfoddol neu rhai sy'n seiliedig ar y gymuned gan gynrychioli trawstoriad o feysydd a buddiannau.

Atodiad 4: Nodiadau o Weithdy Ciliau Aeron 6 Mawrth 2000

Gweithdy 1 - Blaenoriaethu'r prif broblemau a gosod targedau'r dyfodol i Geredigion o fewn dadansoddiad SWOT

Nodwedd	Dosbarthiad SWOT
Canran isel gweithgaredd dynion	Gwendid: nodi prinder swyddi 'real'
GDP isel	Cyfle – i wella!
Cyfraddau mewnfuddsoddi isel	Gwendid yn cynrychioli methiant i amrywio'r economi a chyflwyno sgiliau newydd
Diweithdra uchel ymysg yr ifanc a diweithdra tymor-byr uchel	Gwendid - gormod o bobl ifanc yn cystadlu am y swyddi sy'n bodoli: poblogaeth fawr y myfyrwyr hefyd yn chwilio am waith rhan-amser - cyfleoedd gyrfa gwael ar gyfer pobl ifanc sy'n dod o'r ardal yn wreiddiol, boed yn abl/cymwysedig ai peidio
Amddifadedd wedi'i nodi yn bennaf gan orboblogi a mwynderau tai gwael	Cryfder i Geredigion o ran nad yw amddifadedd wedi arwain at fethiant ac anfodlonrwydd cymdeithasol helaeth; gwendid o ran y gallai gorchudd diwylliannol cryf fod yn cuddio problem ddechreuol; cyfle o ran y gwelir ansawdd bywyd yn un da, gan roi cyfle i gadw pobl ifanc a denu'r arbenigaeth hanfodol i'r ardal; bygythiad, o ran y gallai diffiniadau newydd o amddifadedd gwell yn seiliedig ar brofiad gwledig (e.e. diystyru perchnogaeth car, etc) symud Ceredigion i fyny'r tabl a bygythiad hefyd o ran y gallai'r amgyffrediad o amddifadedd isel ysgogi diffyg ymboeni a blaenoriaeth isel i gymorth allanol.
Cyflog wrth yr awr a chyflogau dynion a menywod yn isel	Gwendid, wedi'i waethygu gan lefelau uchel o gyflogi pobl ifanc (disgyblion ysgol), yn enwedig mewn twristiaeth.
Lefelau uchel o waith rhan-amser	Fe'i gwelir fel cryfder gan ei fod yn galluogi nifer fawr o ferched i weithio ac i ychwanegu at incwm y teulu (er hynny, nid yw'n gymaint o ased o'i ystyried yn erbyn y lefel isel o gyfleoedd gwaith llawn amser).
Lefel isel o weithwyr peiriannau a gwasanaethau personol a phroffesiynol	Roedd y panel yn ddibryder iawn am hyn ond o holi'n fanylach cyfaddefwyd ei fod yn wendid o ran economi amrywiol a sgiliau diwydiannol.
Cyfraddau cynhyrchu sy'n gyffredinol isel	Gwendid a bygythiad (byddai sbarduno cynhyrchiant uwch yn golygu colli swyddi ac ni all yr economi leol bresennol gael rhai yn eu lle).
Presenoldeb a chyfraniad isel cynhyrchu	Gwendid, er nad ystyrid hyn yn enwedig o ddifrifol o ystyried anawsterau'r sector cynhyrchu yn gyffredinol a'r broblem o fod yn or-ddibynnol arno fel yn ne Cymru ddiwydiannol. Ceid yr argraff bendant nad oedd y math o berson a'r mudiadau a gynrychiolid yn y gynhadledd wir am gael pethau fel cynhyrchu mewn amgylchedd byw 'delfrydol wledig' er bod cydnabyddiaeth amharod bod amgylcheddau cynhyrchu yn creu mwy o gyfleoedd i gwmnïau newydd ddechrau cyflenwi gwasanaethau, dosbarthu ac is-gontractio yn ogystal ag annog dechrau

	busnes drwy fentrau gweithwyr a rheolwyr yn prynu'r cwmni.
Cyflogaeth uchel mewn gwasanaethau sector cyhoeddus	Gwendid (a bygythiad, o ran bod llawer o'r swyddi hyn yn dibynnu ar benderfyniadau gwleidyddol y gellid eu gwneud y tu allan i ardal yr awdurdod lleol – e.e. DERA, Cyllid y Wlad, y Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor Llyfrau Cymru, Prifysgol, IGER, etc).
Dibyniaeth uchel ar sectorau sy'n isel eu cynhyrchiant	Gwendid a bygythiad gan fod llawer o'r sectorau hyn oherwydd gwelliannau cynhyrchu gorfodol yn y dyfodol agos.
Newid cadarnhaol uchel yn y boblogaeth o ganlyniad i fudo	Cryfder o ran y cedwir lefelau poblogaeth, cefnogir gwasanaethau lleol a chwistrellir sgiliau defnyddiol i'r economi leol. Gwendid o ran ei fod yn cuddio bod pobl ifanc brodorol yn mudo allan o'r ardal. Cyfle o ran ei fod yn dangos pa mor ddeniadol yw'r ardal i fewnddyfodiaid sydd â'r sgiliau priodol. Bygythiad o ran bod nifer uchel bobl hŷn yn mudo yma, sy'n gofyn am lefelau uwch o gymorth iechyd a chymdeithasol, maent yn aml yn wrthwynebus i newidiadau a fyddai'n angenrheidiol i wella rhagolygon economaidd a hefyd yn aml yn effeithio'n niweidiol ar y diwylliant cynhenid ac yn cadw prisiau tai yn uchel gan gyfyngu ar y cyfle i bobl sy'n wreiddiol o'r ardal eu prynu.
Cyfradd gweithgaredd uwch	Gwendid, unwaith eto'n gwahodd diffyg ymboeni, a bygythiad o ran bod cyfraddau gweithgaredd uchel yn y sectorau anghynhyrchiol.
Cyfraddau diweithdra isel	Cryfder yn y tymor byr ond gwendid yn y tymor canolig gan nad oes cronfa o lafur sydd ag hyfforddiant ar gyfer mentrau newydd.
Cyfraddau isel o ddiweithdra hirdymor	Cryfder – yn lleihau problemau eithrio cymdeithasol – ond efallai ei fod yn cuddio diweithdra cuddiedig a diffyg rhagolygon cyflogaeth real.
Lefelau amddifadedd isel yn ôl mesur y Mynegai Economaidd-gymdeithasol	Cryfder – gweler amddifadedd uchod.
Canran uchel o hunangyflogaeth	Cryfder ar hyn o bryd ond gwendid a bygythiad yn y tymor canolig i hir oherwydd bregusrwydd y sector amaeth. Yn werth nodi nad yw'r sector amaeth ar hyn o bryd yn cynrychioli rhinweddau arferol sectorau hunangyflogedig oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar gynnyrch ac mae wedi colli'r gallu i fod yn farchnad effeithiol a'r busnes yn gallu tyfu i greu cyflogaeth newydd.
Lefel uchel o reolwyr a gweinyddwyr	Gwendid. Dibyniaeth uchel ar y sector cyhoeddus am y swyddi hyn ac nid oes llwybrau gyrfa da tuag at swyddi ar gael i bobl ifanc sy'n dod yn wreiddiol o'r ardal.
Dwy brifysgol	Cryfder o ran cynnal lefelau uchel o swyddi o ansawdd da, er bod y rhain yn dibynnu'n drwm ar fewnfudo. Gwendid wrth ystumio demograffeg oherwydd y crynoadau uchel o bobl ifanc, yn aml yn cystadlu am gyflogaeth ran-amser a thymhorol o fewn yr economi leol. Cyfle o ran y gallant fod

	yn ffynhonnell diwydiannau newydd sy'n seiliedig ar wybodaeth a thechnoleg (gan gynnwys biotech) a chynnig cymorth i addysg mentro ac entrepreneuriaeth ymysg y gymuned fusnes sy'n bodoli eisoes. Bygythiad o ran bod swyddi yn dibynnu ar strategaethau'r DU ynghylch addysg uwch a bod y ddwy brifysgol yn fwy academaidd draddodiadol na llawer, ac yn llai perthnasol i ofynion economaidd a gweinyddol lleol.
Antur Teifi	Profiad o ddatblygiad o'r gwaelod i fyny a chyfle ar gyfer dechrau gweithredu rhaglenni yn y fan a'r lle.
Theatr Felinfach	Cryfder – hefyd yn cynnwys Theatr Mwldan, Aberteifi, a Chanolfan Celf Aber, Aberystwyth – yn creu bywiogrwydd diwylliannol a chyfleoedd i gefnogi datblygiad economaidd, yn enwedig mewn twristiaeth.
Llwyddiannau academaidd uchel yn yr ysgol	Gwendid o ran y gwelir addysg fel llwybr allan o'r Sir yn hytrach na pharatoad ar gyfer bywyd cynhyrchiol ynddi. Cyfle o ran bod ysgolion a cholegau yn amlwg yn llwyddiannus a bod ganddynt raddfa uchel o gefnogaeth rhieni. Bygythiad o ran bod peth o'r rhagoriaeth bresennol oherwydd cronfa fawr o blant academyddion, pobl ddŵad ar y cyfan, na fyddant efallai yn rhannu'r weledigaeth o addysg fwy ymarferol.
Dwyieithrwydd	Yn gyffredinol fe'i hystyrir yn gryfder, yn cynnal diwylliant ac ysbryd cymunedol cadarn.
Cynhyrchiant uchel mewn trafnidiaeth, gwasanaethau ariannol a chyfathrebu a busnes	Fe'i gwelir fel cryfder o ran bod y rhan fwyaf o'r gostyngiadau swyddi eisoes wedi digwydd. Yn awr yn cynrychioli cyfleoedd ar gyfer ehangu.
Hunangyflogaeth uchel a micro gwmnïau	Gweler hunangyflogaeth uchod. Ystyrir micro gwmnïau yn gryfder wrth ddatblygu cyfraddau gweithgaredd uchel ond yn wendid gan fod llawer yn dibynnu ar ddewisiadau ffordd o fyw pobl ddŵad ac nid oes ganddynt yr uchelgais a'r egni angenrheidiol i ehangu. Cyfle o ran y gall yr annog ar rwydweithiau a chydweithredu arwain at unedau mwy effeithiol.
Amddifadedd cuddiedig mewn cyd-destun gwledig	Bygythiad o ddod yn fwy agored.
Arglwyddiaeth Aberystwyth ar yr ardal wledig - yn camystumio'r ffigyrau	Cyfle yn ychwanegol at y gwendid a'r bygythiad amlwg, o ran fod gan Aber fàs critigol i ddatblygu economi'r cefn gwlad.
Dibyniaeth uchel ar unedau cyflogi bychan iawn	Gweler micro gwmnïoedd uchod.
Canrannau hunangyflogaeth dan ddylanwad y sector ffermio	Gweler hunangyflogaeth uchod.
Canran fawr wedi'u cyflogi yn y diwydiannau sylfaenol	Gwendid o ran arallgyfeirio ar hyn o bryd ond mae llawer o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwerth ychwanegol yn y sectorau hyn.
Cynnyrch ac allbwn amaethyddol wedi gostwng 91-97	Cyfle ar gyfer archwilio meysydd amaeth mwy arbenigol sy'n talu'n dda – e.e. organig.
Amrywiaeth daearyddol mawr	Gwendid - strwythurol.

mewn diweithdra	
Twf cyflogaeth arafach mewn peirianneg, adeiladu a gwasanaethau eraill	Rhagfynegiadau yn amherthnasol ar y cyfan i Geredigion oherwydd nad yw'r sectorau hyn mor bwysig â hynny i'r economi leol.
Gwasanaethau ariannol a busnes yn dirywio o ran cyflogaeth	Bygythiad o ystyried y cyfran sylweddol sy'n dal yn y sectorau hyn ond y tebygrwydd yw bod y dirywiad eisoes wedi taro Ceredigion gymaint ag y mae'n mynd i'w wneud oherwydd canoli cyflogaeth mewn canghennau o fanciau. Cyfoeth cynhenid ac angen mwy o gefnogaeth ariannol cydnaws ar gyfer cyfleoedd darparu busnes (e.e. Banc y Cardi) ac addysg ansawdd dda a'r Busnes Ysgol yn Aber yn darparu cyfleoedd i ehangu yn y sectorau hyn.
Rhagfynegir dirywiad cynhyrchiant mewn metalau, mwynau a chemegau	Amherthnasol ar y cyfan.
Twf uchel mewn poblogaeth	Cyfle ar gyfer datblygu busnesau newydd.
Rhagfynegir twf cyflogaeth mewn dosbarthu, gwestai ac arlwyo	Gwendid a bygythiad – nid yw twristiaeth yng Ngheredigion â'r medrau i fynd i'r afael â thwf yn y sectorau hyn mewn mannau eraill o'r DU a thramor.
Cyfleoedd i gael mwyfwy o arbenigaeth mewn metalau, mwynau a chemegau a pheirianneg	Bygythiad. Nid yw Ceredigion mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y cyfleoedd hyn ac mae'r rhai sy'n bodoli yn y Sir yn debygol o fod wedi'u datblygu o'r tu allan.
Rhagfynegir twf cynhyrchiant mewn mwyngloddio, cyfleustodau, trafnidiaeth a chyfathrebu	Bygythiad. Perthnasedd i Geredigion yn bennaf yn y sector cyfleustodau lle mae mwy o golli swyddi (Hyder, Manweb) yn anochel.
Cyfleoedd ar gyfer ychwanegu gwerth i gynnyrch lleol	Cyfle – ond hefyd yn fygythiad oherwydd bydd pob rhan arall o Gymru wledig hefyd yn targedu'r sector hwn.
Cynnydd yn nhwf gweithgareddau diwylliannol, twristiaid, a hamdden	Cyfle – ond cynnydd mewn globaleiddio twristiaeth a diwylliant yn golygu bydd angen i Geredigion chwilio am farchnadoedd arbenigol.

Atodiad 4
Gweithdy 2 – Adnabod prif themâu a sectorau economaidd i'w datblygu.

Themâu yn y weledigaeth o Geredigion fel cymuned wledig 2010:

Grŵp 1

Canolbwyntio ar chwe thref farchnad Ceredigion er mwyn datblygu canolbwyntiau i'r gymuned ac i'r farchnad:

1. Ffocws cymunedol: dylai pob tref farchnad fod â chanolbwynt cymunedol sy'n cynnwys:

    - Gwasanaethau lleol hunangynhaliol megis garejys, siopau, swyddfeydd post – a fyddai'n gweithredu fel canolbwynt cymunedau;
    - Isadeiledd TG y mae gan bob aelod o'r gymuned fodd o fynd ato;

- Cymuned fywiog sydd ag amrywiaeth o oedrannau ac sy'n gyfoethog o ran diwylliant ac amwynderau cymdeithasol.

2. Marchnad arbenigol: datblygodd pob tref farchnad yn wreiddiol fel tref farchnad amaethyddol. Mae'n rhaid nodi diben a hunaniaeth newydd iddynt a datblygu'r rhain. Mae enghreifftiau yn cynnwys trefi cynnyrch organig neu drefi gemwaith (Tregaron). Mae'r trefi marchnad hyn yn ddigon mawr o ran poblogaeth i gael màs critigol ar gyfer cynnal y mathau hyn o wasanaethau. Dylid eu datblygu fel marchnadoedd hamdden sydd â swyddogaeth a hunaniaeth newydd, yn seiliedig ar eu cryfderau ar hyn o bryd.

3. Bydd pobl yn disgwyl cael **byw** mewn cymdeithasau sydd:

- Ag amgylchedd glân ac iach;
- Yn cynnal yr amgylchedd naturiol;
- Â lefelau llai o droseddau;
- Sydd â gostyngiad mewn lefelai amddifadedd ac allgau;
- Yn darparu lefel uwch o gyfoeth ar gyfer pob aelod o gymdeithas;
- Yn bodloni disgwyliadau i gael bywydau boddhaol o ran bywyd cymdeithasol a gwaith;
- Yn cynnwys cymdeithasau hapusach sydd â lefelau uchel o allu cymdeithasol lleol;
- Â mwy o fynediad i weithgareddau hamdden.

4. Bydd pobl **yn gweithio** mewn amgylchiadau:

- Sydd â mwy o hyblygrwydd o ran yr oriau maent yn eu gweithio;
- Lle mae'n bosibl cael seibiannau o'r gwaith i roi sylw i waith fferm;
- Lle maent yn teithio am lai o amser i'r gwaith;
- Lle maent yn gwneud llai o deithio sy'n gysylltiedig â gwaith;
- Lle bydd hyd yn oed yn fwy o hyblygrwydd rhwng gyrfaoedd gwahanol.

5. Bydd pobl yn **teithio a chyfathrebu:**

- Yn gyflymach ac yn fwy effeithiol;
- Yn amlach ar drenau ac yn yr awyr, ac yn gyflymach ar y ffyrdd;
- Mynediad haws i isadeiledd TG datblygedig.

6. At hyn, bydd gan y Sir:

- Bresenoldeb ffisegol cryfach o ran gwasanaethau ariannol;
- Ysgol fro fydd ag amryw o ddefnyddiau gwahanol iddi – bydd y ffocws yn symud o fod ag un defnydd yn unig a bydd ysgolion yn dod yn ganolfannau ar gyfer dysgu, ar gyfer busnesau ac ar gyfer cymunedau;
- Banc buddsoddi gwledig i gylchredeg buddsoddiad yn y Sir.

Grŵp 2

Ysgol – defnydd helaeth
Canolfan ar gyfer mynediad, TGCh, defnydd achlysurol ar gyfer gwaith
Oriau hyblyg
Caffi

Crèche a chyfleusterau gofal plant cyn ac ar ôl ysgol
Meysydd chwarae, hamdden a pharc
(Y Farchnad Ddysgu)

Gofal - sector sy'n tyfu (mwy o henoed) darpariaeth helaeth ar gael / pobl leol yn berchen arno

Buddsoddi - banc buddsoddi lleol, i bobl gael buddsoddi mewn datblygiadau lleol, undebau credyd

Gwaith

- Gwaith o werth uchel (rhyngrwyd, crefftau, pren ac ynni (fel sector)) mewn amrywiaeth o sectorau;
- Newidiadau mewn ffyrdd o weithio;
- Llai o bwysau amser – ddim yn gorfod gweithio oriau mor hir;
- Gwell cydbwysedd rhwng amser yn gweithio ac amser ddim yn gweithio;
- Llai o amser yn teithio;
- Treulio peth o'r wythnos waith yn gweithio o gartref;
- Treulio peth amser yn gweithio rywle arall (megis Caerdydd);
- Yn haws gwneud newidiadau i'r math o waith a wneir;
- Lab syniadau: datblygu atebion newydd, radical, arloesol: 'ychwanegu gwerth drwy gelloedd yr ymennydd' gan arwain at weithgaredd sy'n ychwanegu gwerth;
- Y gymuned (sef grŵp o bobl sydd ar yr un donfedd) yn gyfrifol am ysgogi datblygiadau newydd, gan ennill rheolaeth ar yr agenda ac â gweledigaeth uchelgeisiol;
- Iechyd: darpariaeth helaeth mewn canolfannau iechyd gwell a chyfle economaidd yn y sector;
- Newidiadau yn y ffordd yr ydym yn gweithio: cynyddu'r unedau sy'n creu incwm o weithgareddau eraill bywyd;
- Ailgylchu yn dod yn ffordd o fyw, mwy o rannu ar adnoddau (busnesau ac unigolion);
- Prynu hanfodion siopa ar-lein;
- Mwyfwy o gynnyrch ffres yn cael ei brynu'n lleol;
- Siopau arbenigol yn ganolog i'r profiad o fod mewn canol tref (yn denu pobl o ardaloedd lleol ac o bell).

Pobl ifanc

- Darpariaeth gymdeithasol o safon uchel (clybiau Sadwrn, disgo ac ati);
- Gwaith arbenigol, TGCh, gêmau, llawer wedi dod o'r Lab Syniadau.

Cyfle Ychwanegu gwerth o fewn sectorau
Gwybodaeth
Bwyd a bwyd y môr
Pren a choed
Ynni
Twristiaeth wledig, werdd
Cynhyrchion
Diwylliant a'r cyfryngau
Prynu mwy yn lleol
Ffyrdd newydd o weithio mewn partneriaeth

Grŵp 3

- Trawstoriad o oedran yn y boblogaeth;
- Ysbryd cymunedol – ymdeimlad o hunaniaeth/lle;
- Amrywiaeth o fwynderau dinesig – poblogaeth wledig ddim dan anfantais oherwydd bod gwasanaethau wedi'u crynhoi yn y trefi;
- Ymdeimlad o berchnogaeth/ymrwymiad i'r fan lle mae pobl yn byw;
- Mwy o amser i fyw;
- Llai o deithio i'r gwaith;
- Isadeiledd cyfathrebu o gyflymder uchel (Sylwer: monopoli presennol BT ar gyfathrebu yn golygu bod cyfathrebu cyflymder uchel hanfodol – e.e. opteg ffibr – yn annhebygol o gyrraedd Ceredigion hyd nes y bydd yn rhy hwyr i fanteisio ar y diwydiannau newydd sy'n seiliedig ar gyfathrebu);
- Ysgolion hefyd yn cael eu gweld fel canolfannau adnoddau cymunedol;
- Yn bwysig cadw ysgolion i atgyfnerthu'r gymuned leol ond peidio â rhoi plant dan anfantais drwy gadw unedau bychain iawn – angen cydbwysedd rhwng addysg dda / ymwneud cymdeithasol – ond gallai defnyddio dysgu o bell drwy fideo, ac ati, leihau'r pwysau ar staff dysgu bychan;
- Hyblygrwydd wrth gyflenwi rhai gwasanaethau – e.e. addysg yn manteisio ar gyswllt fideo;
- Llywodraethu'n lleol – cyfrifolaeth mewn llywodraeth leol – rôl fwy positif i bobl leol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw;
- Hollol ddwyieithog – ymdrech gref ac argyhoeddiadol i integreiddio amrywiaeth ddiwylliannol rhwng diwylliannau brodorol a phobl ddŵad;
- Bwrlwm diwylliannol – symud ymlaen yn hytrach na bod ynghlwm wrth y gorffennol;
- Hyder/balchder yng Ngheredigion – ddim yn chwilio am rywle gwell i fynd i fyw ynddo;
- Datblygu chwaraeon – ar gyfer y gymuned leol yn ogystal ag fel adnoddau cenedlaethol/rhanbarthol;
- Cyfleusterau ieuenctid – dim clwb ieuenctid yn Aberystwyth – darpariaeth ddychmygus o lefydd i fynd iddynt a phethau i'w gwneud ynddynt ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys canolfannau entrepreneuriaeth;
- Defnyddio cynnyrch/cyfleusterau lleol – datblygu meysydd arbenigol megis cynnyrch organig lleol;
- Brandio lleol (sylwer ar bryd o fwyd yn Nhŷ Glyn Aeron sy'n llawn o gynhwysion rhyngwladol heb ddim blas lleol na hunaniaeth);
- Iechyd – cyfleusterau triniaeth ddigonol ar gyfer cleifion yn ogystal ag annog ffyrdd o fyw iachach;
- Cyflogaeth lawn (cynaliadwy) o fewn pellter teithio rhesymol;
- Trefnu micro fusnesau yn grwpiau mwy cystadleuol;
- Darparu nwyddau a gwasanaethau yn lleol;
- Annog arfer da drwy wella cysylltiadau rhyngwladol;
- Defnyddio prifysgolion i greu cyfleoedd newydd mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar wybodaeth ac i gefnogi'r arferion gorau ac addysg barhaus mewn masnach leol;
- Biodechnoleg yn cynnig rhai cyfleoedd o'r fath;
- Gwella cyfleoedd i bobl ifanc i wrthdroi mudo oddi yma;
- Addysg yn awr yn cael ei ystyried fel pasport i symud i ffwrdd, angen bod â mwy o syniad ynghylch cadw ieuenctid lleol;
- Angen codi'r llyffetheiriau cymdeithasol/economaidd er mwyn cadw pobl ifanc mewn cymunedau gwledig;
- Micro fusnesau ddim yn dda am ddarparu olyniaeth – angen sicrhau màs critigol;

- Isadeiledd, yn enwedig trafnidiaeth a chyfathrebu, anghenion i fod yn ddigonol i anghenion cymunedau a datblygu busnes;
- Prifysgolion i fod yn fwy mentrus a chydgysylltu'n well â'u hardaloedd lleol;
- Cystadleuaeth well yn y ddarpariaeth TGCh;
- Pecynnu cynnyrch twristiaeth yn well er mwyn cystadlu yn fwy effeithiol am draffig newydd;
- Gwneud gwell defnydd o bobl fusnes sydd wedi hanner ymddeol– yn hytrach na busnesau wedi'u rhedeg yn ddiawydd, gweithio fel cydlynwyr ar gyfer partneriaethau busnes/cymunedol newydd;
- Grŵp Cynhyrchu Canolbarth Cymru yn dangos gwerth cydweithio o'r fath;
- Angen integreiddio adeiladau busnes a thai mewn trefi gwledig;
- Angen darparu ar gyfer adeiladau masnachol a thai ar gyfraddau fforddiadwy;
- Angen darparu cymorth ariannol hyblyg ar gyfer datblygu busnes (gan gynnwys, ee, Banc y Cardi).

Grŵp 4

- Ailddatblygu pentrefi – llai o adfeilion, gwell adeiladau – capeli ac ysgolion ar gyfer defnydd cymunedol;
- Cadw gwasanaethau gwledig swyddfeydd y post a siopau gwerthu annibynnol;
- Clybiau ar ôl ysgol a chyfleusterau crèche, mwy o ganolbwyntio ar fywyd cymunedol;
- Angen ystyried anghenion poblogaeth sy'n heneiddio;
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer ailfuddsoddi cymdeithasol gan yr henoed - cyngor busnes/gofal plant
- Cynhwysiant/ goresgyn unigedd gwledig;
- Adnewyddadwy;
- Y Gymraeg yn "ddiogel"- dwyieithrwydd ddim bellach yn bwnc llosg;
- Gwell cydbwysedd rhwng y rhywiau;
- Gwell mynediad i gefn gwlad;
- Cyfleusterau hamdden, celf a chwaraeon – rygbi, pêl-droed ac athletau;
- Adnewyddu theatr i gynnwys darpariaeth sinema;
- Grymuso TGCh, a'r bygythiad i fywyd cymunedol;
- Angen edrych ar strwythurau ar gyfer twf busnes;
- Sectorau sydd â galw mawr, arbenigaeth a lefelau uchel o ailfuddsoddi;
- Angen cryfhau busnesau ymylol;
- Mwy o ymwybyddiaeth busnes a chydnabod talent unigolion;
- Angen datblygu cyfalaf banc/risg;
- Cryfder sector wedi'i adeiladu o gwmpas twristiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol, amaethyddiaeth a chynhyrchu (gan gynnwys ynni, technoleg, bwyd, ailgylchu a'r cyfryngau, diwydiannau diwylliannol);
- Goresgyn y prinder sgiliau mewn peirianneg;
- Datblygu'r micro fusnesau;
- Ychwanegu gwerth ym mhob pen.

PRIF THEMÂU AR GYFER DATBLYGU

Themâu a awgrymwyd fel blaenoriaethau ar gyfer datblygu	Rhifau yn nodi blaenoriaeth
	1 2 3
Grŵp 1	
Datblygu gallu cymdeithasol ac economaidd cymunedau ar bob lefel (Datblygu hunaniaeth a chynyddu perthyn; datblygu ymdeimlad o gymuned a chodi hyder; sicrhau cynhwysiant cymdeithasol i unigolion a grwpiau)	8 9 1
Datblygu cyfathrebu isadeiledd (Isadeiledd a sgiliau mewn TGCh; Trafnidiaeth a theithio; Cyfathrebu mewnol)	13 6 3
Datblygu cynaladwyedd o ran yr economi, cymdeithas a'r amgylchedd (Gwella'r amgylchedd; Datblygu cyflenwadau ynni megis biomas a gwynt)	10 7 1
Gwerth ychwanegol i gynnyrch crai ac adnoddau naturiol (Rhaid dychwelyd y gwerth i Geredigion; drwy brynu'n lleol)	14 7 0
Datblygu twristiaeth ddiwylliannol, werdd a gwledig (sectorau safon uchel a gwerth ychwanegol)	11 8 1
Datblygu Adnoddau Dynol	13 6 1
Partneriaethau a Chydlynu (Yn lleol a rhanbarthol)	8 10 1

Grŵp 2	
Cyfathrebu a Phartneriaethau (Trafnidiaeth, TGCh, + ffyrdd newydd o weithio mewn ffyrdd sydd wir yn gydlynol)	12 10 2
Ychwanegu Gwerth Amaeth, coed, gwybodaeth, ynni amgen, twristiaeth / cefn gwlad, cynhyrchu, diwylliant celf, y cyfryngau	24 1 0
Adfywio lleol a gwasanaethau gwledig (Ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, cyfuniad o rai preifat, cyhoeddus a chymunedol)	10 9 3
Arloesi a meysydd Cyfle (bod ar y blaen, melin drafod, ymchwil a datblygu)	7 14 2
Gwella Isadeiledd Busnes	8 14 1
Datblygu gallu i gystadlu (Busnes) (Cyffredinol)	7 14 1
Cynyddu cyfraddau gweithgaredd economaidd drwy rymuso + cynyddu gallu economaidd (Cyfleoedd cyfartal yn yr ystyr ehangach, menywod, pobl gaiff eu heithrio, pobl ifanc ac ati a chynyddu entrepreneuriaeth)	13 7 1

Grŵp 3	
Hunaniaeth (Brandio ac ymwybyddiaeth)	5 13 6
Twristiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol	13 8 1
Meithrin talent greadigol	21 2 0
Cyfranogi	ni wnaed dim
Isadeiledd	14 5 2
Cynnyrch newydd / Gwerth Ychwanegol	13 10 2

Grŵp 4			
Prynu'r dôm!	0	0	13
Addysg/hyfforddiant, sy'n cynnwys y camau canlynol: - Codi ymwybyddiaeth - Paratoi'r gymuned a'r gweithlu - Darganfod beth yn union mae pobl ei eisiau (cynrychiolwyr ddim yn argyhoeddedig eu bod yn cynrychioli poblogaeth Ceredigion fel cyfanrwydd yn ddigonol) - Materion partneriaeth/perchnogaeth - Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, fel dull o gael addysg/hyfforddiant a'u diben	5	10	2
Datblygu rhwydweithiau cydweithredol ar gyfer datblygu busnes/cryfhau cymunedau	11	6	0
- Dulliau cefnogi dilyffethair ar gyfer busnesau newydd a rhai sy'n datblygu - Bydd hyn yn cynnwys bod ystod o gymhelliannau ariannol ar gael o ecwiti i ostyngiadau treth/ardrethi - Llai o weinyddiaeth fiwrocrataidd (pwy sydd yn darllen cynllun busnes neu'n poeni ym mha sector y mae'r busnes wedi'i leoli?) i roi lle i weithgaredd gwneud arian/creu gwaith ym mha sector bynnag - Darparu ar gyfer cefnogaeth gyson/gafael dwylo estynedig - Integreiddio prifysgolion i'r broses datblygu busnes	8	11	0
Annog Prifysgolion i ddatblygu entrepreneuriaeth	3	11	3
Datblygu hamdden/diwylliant/chwaraeon i gefnogi cymunedau cyfannol a chyfleoedd busnes newydd	2	8	6
Pobl ifanc - Wedi'u hintegreiddio i'r broses gynllunio drwy ymgynghori â hwy a dirprwyo awdurdod - Wedi ymgynghori â hwy ynghylch y weledigaeth i'r dyfodol, yn enwedig ym meysydd technoleg, arloesi a diwylliant - Darparwyd ar eu cyfer fel y prif darged o ran datblygiad economaidd a chymdeithasol yng Ngheredigion	(newydd)		
Mesurau adfywio/cynnal cymunedau - Polisïau tai - Isadeiledd - Addysg	(newydd)		